



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Rhaglen Diwygio Mynediad

Adroddiad Dadansoddi: Diwygiad 2A

Ymestyn yr hawl i reidio beic neu geffyl
ar lwybrau troed cyhoeddus

Crynodeb Gweithredol Diwygiad 2A – Ymestyn gweithgareddau ar lwybrau troed cyhoeddus

Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 2A

"Galluogi beicio a marchogaeth ceffylau i ddiwydd drwy hawl ar lwybrau troed cyhoeddus, gan ddarparu beicwyr a marchogwyr â mwy o gyfleoedd i gael mynediad at yr awyr agored."

Ystyriwyd tri opsiwn i gyflawni bwriad polisi 2A, sef:

- i. Deddfu fel y gall beicwyr a marchogwyr ddefnyddio pob llwybr troed cyhoeddus drwy hawl, gyda chafeat neu gymal cysylltiedig ar y gofyniad ar gyfer defnydd cyfrifol.
- ii. Fel yn achos Opsiwn 2A(i), deddfu ar gyfer cymhwyso hawliau beicio a marchogaeth ceffylau i holl lwybrau troed cyhoeddus. Byddai pwerau hefyd yn cael eu darparu ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol i asesu llwybrau troed cyhoeddus ar gyfer eu hanaddasrwydd ar gyfer hawliau o'r fath. Byddai'r hawliau ychwanegol yn cael eu heithrio lle asesir bod y llwybrau troed yn anaddas. Byddai 'anaddasrwydd' yn cael ei benderfynu ar sail proses asesu a meini prawf ffurfiol.
- iii. Byddai hawliau uwch yn cael eu cymhwyso fesul achos ar sail proses asesu, gan awdurdodau lleol sy'n cymhwyso meini prawf safonol sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

Nodwyd y materion allweddol canlynol ar gyfer cyflawni opsiynau 2A:

- Bydd angen pwerau ar awdurdodau lleol i wella hygyrchedd llwybrau troed a rennir ar gyfer defnyddwyr â hawliau ychwanegol, ac i gymhwyso gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar hawliau mynediad mewn rhai lleoedd.
- Bydd angen darparu proses a methodoleg ar gyfer asesu addasrwydd ac anaddasrwydd beicio a marchogaeth ceffylau ar lwybrau troed cyhoeddus, gan gynnwys ystyried anghenion ymglymerwyr statudol, a gwahardd hawliau mynediad, neu gyfyngu arnynt.
- Bydd cymhwyso hawliau trwy statud ledled y rhwydwaith o lwybrau troed cyhoeddus yn ymestyn yr hawliau tramwy sydd ar gael ar gyfer marchogaeth ceffylau a beicio dros 26,000 km.
- Dylai unrhyw ddiwygiad 2A gynnwys mesurau i helpu i gyfathrebu'r hawliau a chyfrifoldebau newydd, ynghyd ag addasrwydd llwybrau troed â hawliau ar gyfer beicwyr, marchogwyr a cherddwyr.
- Fel yn achos diwygiadau eraill, byddai cyflwyno cod mynediad statudol y byddai modd ei orfodi yn helpu i reoli'r hawliau a chyfrifoldebau a geir o ganlyniad, er nad yw diwygiadau yn ddibynnol ar newidiadau o'r fath.

Materion allweddol a godwyd sy'n benodol i'r opsiynau 2A amrywiol a gynigiwyd:

- Bydd dilyn dull detholus ar gyfer yr hawliau cymhwyso yn Opsiwn 2A(iii) yn arwain at lai o hawliau beicio a marchogaeth ceffylau ar lwybrau troed cyhoeddus a bydd yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol.
- Ni fydd cymhwyso hawliau ledled llwybrau troed cyhoeddus drwy Opsiwn 2A(ii), ac yn enwedig Opsiwn 2A(i), yn nodi addasrwydd y llwybr ar gyfer beicio a marchogaeth ceffylau.
- Bydd angen i gyngor cyfreithiol pellach lywio pa ddarpariaethau deddfwriaethol fydd yn ofynnol i ddatblygu naill ai dull detholus (Opsiwn 2A(ii) neu Opsiwn 2A(iii)) ynteu ddull ledled y rhwydwaith (Opsiwn 2A(i)) o safbwynt diwygiadau, e.e. darpariaethau yn y diwygiadau ar gyfer iawndal neu apeliadau.

Cyflwyniad

Gofynnwyd i'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad ddatblygu cyngor ac argymhellion i Lywodraeth Cymru ynglŷn â chyflenwi bwriad ei pholisi i ddiwygio deddfwriaeth mynediad hamdden yng Nghymru.

Mae'r broses a sefydlwyd i ddatblygu'r cyngor wedi'i chrynhai isod:



Mae'r meysydd diwygio deddfwriaethol y mae'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad yn eu hystyried fel a ganlyn:

- Diwygiad 1A: Ymestyn yr hawliau i ddefnyddio tir mynediad sydd eisoes yn bodoli o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
- Diwygiad 1B: Newidiadau i deddfwriaeth ar gyfer ymestyn tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy tua'r arfordir
- **Diwygiad 2A: Ymestyn yr hawl i reidio beic neu geffyl ar lwybrau troed cyhoeddus**
- Diwygiad 2B: Cyfyngiadau dros dro ar lwybrau cyhoeddus
- Diwygiad 3A: Darparu map integredig o fynediad cyhoeddus yng Nghymru
- Diwygiad 3B: Dull integredig o gynllunio mynediad cyhoeddus yng Nghymru

Gan ddefnyddio'r broses uchod, cafodd bwriad y polisi ar gyfer pob diwygiad ei amlinellu gan ystyried y materion a phroblemau y bydd angen mynd i'r afael â nhw. Ar y sail hon, cafodd tri opsiwn eu datblygu ar gyfer pob diwygiad. Yn ogystal, cyhoeddwyd 'cais am dystiolaeth' targedig, gan ofyn i randdeiliaid helpu i lywio gwaith dadansoddi a mireinio pob opsiwn. Am ragor o wybodaeth am broses y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad a chanlyniadau pob cam hyd yma, ewch i: <https://lyw.cymru/y-grwp-cyngori-ar-ddiwygio-mynediad>

Mae'r adroddiad dadansoddi Diwygiad 2A hwn o'r opsiynau diwygio wedi'i gynhyrchu gan ddilyn dystiolaeth a chyfraniadau eraill y gofynnwyd amdanynt gan:

- Fforymau mynediad lleol [22]
- Aelodau'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol [37 sefydliad]
- Aelodau o grwpiau arbenigol y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad [28 cynrychiolydd]
- Cadw

Darparodd cynghorwyr polisi mynediad hamdden Cyfoeth Naturiol Cymru fewnbwn arbenigol, ynghyd ag arbenigwyr polisi Cyfoeth Naturiol Cymru eraill o bob rhan o gylch gwaith y sefydliad, gan gynnwys ym maes cadwraeth natur, polisi morol a rheoli tir. Mae adroddiad o'r ymatebion ar gael drwy'r ddolen we a nodir uchod.

Mae gan bob maes diwygio adroddiad dadansoddi sy'n defnyddio'r dystiolaeth a'r ymatebion allweddol a dderbyniwyd gan randdeiliaid er mwyn cyflwyno asesiad o bob opsiwn diwygio.

Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys tair prif ran:

- **Tabl asesu meini prawf:** Yn cymharu ffeithiau a materion allweddol ar gyfer pob opsiwn yn erbyn meini prawf y rhaglen sefydledig
- **Sylwebaeth** ar yr opsiynau
- **Tablau diwygio'r opsiynau:** Yn crynhoi'r materion i'w hystyried gyda phob opsiwn

Ar draws y meysydd diwygio, 1A, 1B, 2A ac yn y blaen, mae yna themâu i'w hystyried o fewn yr opsiynau, sef:

- Gweithgareddau hamdden cyfrifol
- Cydraddoldeb, cynhwysedd a hygrychedd
- Cyfrifoldebau'r fforymau mynediad lleol o fewn yr opsiynau diwygio
- Gweithgareddau a digwyddiadau masnachol

Er y bydd y rhain yn cael eu hystyried ym mhob maes diwygio, mae adroddiad dadansoddi trawsbynciol ar wahân yn mynd i'r afael â'r materion cyffredinol sy'n codi a sut mae'r themâu yn berthnasol ar draws diwygiadau'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. Bydd yr adroddiad dadansoddi trawsbynciol terfynol ar gael hefyd drwy wefan Llywodraeth Cymru – gweler y ddolen [yma](#).

Diwygiad 2A – Ymestyn gweithgareddau ar lwybrau troed cyhoeddus *Crynodeb o fwiad y polisi ar gyfer Diwygiad 2A*

Galluogi pobl i feicio ac i farchogaeth ceffylau drwy hawl ar lwybrau troed cyhoeddus, gan roi mwy o gyfleoedd i feicwyr a marchogion gael mynediad i'r awyr agored.

Tabl 1: Teitlau opsiynau a disgrifiadau amlinellol Diwygiad 2A

2A: Teitlau'r cynigion amlinellol	Disgrifiad cryno o'r cynnig amlinellol
i. Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol [dull adran 30 ¹]	Datblygu'r gwaith o gymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol, gan ddefnyddio dull o fath adran 30 Deddf Cefn Gwlad 1968, ² gyda chafeat neu gymal cysylltiedig o ran gofyniad am ddefnydd cyfrifol.
ii. Hawliau uwch wedi'u cymhwyso i lwybrau troed gyda phwerau i wahardd ar sail anaddasrwydd	Hawliau uwch wedi'u cymhwyso ar draws y rhwydwaith o lwybrau troed. Byddai pwerau'n cael eu darparu ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol i'w galluogi i asesu anaddasrwydd llwybrau o safbwynt hawliau uwch. Gellid cyflwyno gwaharddiad i lwybrau pe aseswyd bod hawliau'n anaddas. Byddai 'anaddasrwydd' yn cael ei bennu ar sail proses a meini prawf asesu ffurfiol (o dan y pennawd 'asesiad anaddasrwydd').
iii. Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed fesul achos ac ar sail ddetholedig	Byddai hawliau uwch yn cael eu cymhwyso fesul achos ar sail proses asesu, gan awdurdodau lleol sy'n cymhwyso meini prawf safonol sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

Dadansoddiad o'r opsiynau diwygio

Cafodd pob un o'r opsiynau (2A(i), 2A(ii) a 2A(iii)) eu cynnig gan y grŵp arbenigol fel ffyrdd posibl o gyflwyno bwriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwygiad. Yn yr adrannau canlynol, ceir disgrifiad ehangach ar gyfer pob opsiwn arfaethedig. Amlinellwyd y disgrifiadau ar ffurf tablau yn y papurau nodi opsiynau – gweler y tablau isod.

Disgrifiad cryno o'r diwygiadau arfaethedig o fewn Opsiwn 2A(i)

Mae Opsiwn 2A(i) yn darparu ar gyfer deddfwriaeth i ganiatáu marchogwyr ceffylau a beicwyr (yr hyn y cyfeirir atynt fel *hawliau uwch* yn yr adroddiad hwn) i reidio ar hyd pob llwybr troed cyhoeddus yng Nghymru, drwy hawl. Wrth wneud hynny, byddai'n rhaid i

¹ Gellir gweld adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 yma:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1968/41/section/30>

² H.y. gan ddefnyddio dull tebyg i adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968, deddfu fel y gall beicwyr a marchogwyr ceffylau ddefnyddio pob llwybr troed cyhoeddus, drwy hawl, yn ogystal â cherddwyr. (Gweler y ddolen i'r ddeddfwriaeth yn nhroednodyn 1 uchod.)

ddefnyddwyr hawliau uwch ildio i gerddwyr. Ni fyddai unrhyw ofyniad i gynnal na gwella llwybrau o'r fath ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch, a chât mapiau a datganiadau diffiniol eu diwygio'n briodol i roi eglurder cyfreithiol ynghylch darpariaeth yr hawliau uwch ar lwybrau troed diffiniol. Cât atebolrwydd tîrfeddianwyr i ddefnyddwyr cyfreithiol pob hawl dramwy gyhoeddus ei leihau i fod yn gyfystyr â'r hyn a bennir ar gyfer tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Byddai gan awdurdodau lleol bwerau i addasu adeileddau a darparu arwyddion ychwanegol ar lwybrau troed cyhoeddus er mwyn gwella'r ffordd ar gyfer unrhyw ddefnyddwyr. Byddai gan awdurdodau hefyd y pŵer i gyfyngu ar y defnydd o lwybrau troed cyhoeddus lle bo angen, e.e. er mwyn atal difrod, neu am resymau iechyd a diogelwch. Mewn achosion lle bo defnyddwyr yn ymddwyn mewn ffordd anghyfrifol, gan beryglu defnyddwyr eraill, neu achosi difrod i'r ffordd neu fudd datganedig arall, gellid atal eu hawliau am gyfnod o amser.

Cât'r newidiadau arfaethedig eu hadlewyrchu mewn codau ymddygiad diwygiedig ar gyfer pob defnyddiwr, a chât deunyddiau cyfathrebu eu datblygu a fyddai'n sicrhau y byddai pawb â buddiannau yn cael gwybod am newidiadau, cyn ac ar ôl eu gweithredu.

Elfennau allweddol amgen o fewn Opsiwn 2A(i)

Mae Opsiwn 2A(i) yn cynnwys amrywiadau posibl i'r pwyntiau uchod, gan gynnwys darparu ar gyfer cludo cerbydau dŵr nad ydynt wedi'u pweru'n fecanyddol ar hyd hawliau tramwy cyhoeddus [gweler elfen allweddol 001/amgen] a'i gwneud yn ofynnol cynnal a chadw llwybrau troed ar gyfer defnydd hawliau uwch [gweler elfen allweddol 002/amgen]. Mae'r opsiwn amgen hwn hefyd yn cynnig clirio'r ôl-groniad o orchmynion addasu mapiau diffiniol cyn cyflwyno hawliau uwch, neu ochr yn ochr â'u cyflwyno [elfen allweddol 004/amgen], a'u cysylltu â gwaith gwella llwybrau troed ar gyfer hawliau uwch, a thaliadau ar gyfer defnydd tir yn y dyfodol.

Mae elfen amgen yn cynnig cyflwyno cod ymddygiad statudol er mwyn ei gwneud yn bosibl cymryd camau yn erbyn achosion o ymddygiad hamdden anghyfrifol.

Disgrifiad cryno o'r diwygiadau arfaethedig o fewn Opsiwn 2A(ii)

Mae Opsiwn 2A(ii) yn cynnwys nifer o'r un darpariaethau a geir yn Opsiwn 2A(i). Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), mae Opsiwn 2A(ii) yn darparu ar gyfer deddfwriaeth i alluogi marchogwyr ceffylau a beicwyr (defnyddwyr hawliau uwch) i reidio ar hyd pob llwybr troed cyhoeddus yng Nghymru, drwy hawl. Wrth wneud hynny, byddai'n rhaid i ddefnyddwyr hawliau uwch ildio i gerddwyr. Ni fyddai unrhyw ofyniad i gynnal neu wella llwybrau cyhoeddus o'r fath ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch.

Un gwahaniaeth sylweddol rhwng hyn ag Opsiwn 2A(ii) yw y byddai'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol asesu llwybrau troed cyhoeddus diffiniol yn ffurfiol er mwyn asesu eu hanaddasrwydd o safbwynt defnydd hawliau uwch. Gallai Senedd Cymru lunio rheoliadau i ddiffinio'r broses anaddasrwydd, gan ddsbarthu canllawiau cysylltiedig o ganlyniad (gan gynnwys materion fel datblygu asesiad i'r cam nesaf, methodoleg a meini prawf asesiadau, gofynion ymgynghori, a phenderfyniadau ac apeliadau mewn perthynas ag ymgynghoriad).

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), câi rheoliadau mapiau a datganiadau diffiniol eu diwygio'n briodol er mwyn sicrhau eglurder cyfreithiol ynghylch yr hawliau a fydd yn gymwys i unrhyw lwybrau troed yn dilyn hyn.

Cât atebolrwydd tîrfeddianwyr i ddefnyddwyr pob hawl dramwy gyhoeddus, gan gynnwys defnyddwyr hawliau uwch ar lwybrau troed cyhoeddus diffiniol, ei alinio â'r atebolrwydd o safbwynt hawliau mynediad defnyddwyr ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Byddai gan awdurdodau lleol bwerau i addasu adeileddau a darparu arwyddion ychwanegol ar lwybrau troed cyhoeddus er mwyn gwella'r ffordd ar gyfer unrhyw ddefnyddwyr. Byddai gan awdurdodau lleol hefyd bwerau i gyfyngu ar ddefnydd llwybrau troed cyhoeddus gan ddefnyddwyr mewn achosion lle bo awdurdod priffyrdd lleol yn asesu bod llwybr yn anaddas ar gyfer hawliau uwch, neu pan fydd yn ystyried bod angen cyfyngu ar ddefnydd er mwyn atal neu liniaru difrod. Byddai'r broses yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ymgynghori â buddiannau penodol (gan gynnwys tîrfeddianwyr, fforymau mynediad lleol, a grwpiau defnyddwyr hamdden), a byddai ganddynt y disgrisiwn i wneud penderfyniadau y byddai modd apelio yn eu herbyn. Er enghraifft, gellid ail-ddynodi llwybrau'n anaddas, naill ai'n barhaol, neu'n amodol ar adolygiad cyfnodol.

Mewn achosion lle bo defnyddwyr yn ymddwyn mewn ffordd anghyfrifol, gan beryglu defnyddwyr eraill, neu achosi difrod i'r ffordd neu fudd datganedig arall, gellid atal eu hawliau am gyfnod o amser.

Câi'r newidiadau arfaethedig eu hadlewyrchu mewn codau ymddygiad diwygiedig ar gyfer pob defnyddiwr, a châi rhaglen gyfathrebu ei datblygu i sicrhau bod pawb â buddiannau yn ymwybodol o'r newidiadau, cyn ac ar ôl eu gweithredu.

Elfennau allweddol amgen o fewn Opsiwn 2A(ii)

Mae Opsiwn 2A(ii) yn cynnwys amrywiadau posibl (elfennau allweddol amgen) i'r pwyntiau uchod, gan gynnwys darparu ar gyfer cludo cerbydau dŵr nad ydynt wedi'u pweru'n fecanyddol ar hyd hawliau tramwy cyhoeddus [gweler elfen allweddol 001/amgen] a'i gwneud yn ofynnol cynnal a chadw llwybrau troed ar gyfer defnydd hawliau uwch [gweler elfen allweddol 002/amgen]. Mae opsiwn amgen hefyd yn cynnig clirio'r ôl-groniad o orchymnion addasu mapiau diffiniol cyn cyflwyno hawliau uwch, neu ochr yn ochr â'u cyflwyno [elfen allweddol 004/amgen], a phennu bod gwaith gwella llwybrau troed ar gyfer hawliau uwch yn gymwys am daliadau ar gyfer rheoli tir yn y dyfodol.

Mae elfen amgen yn cynnig cyflwyno cod ymddygiad statudol er mwyn ei gwneud yn bosibl cymryd camau yn erbyn achosion o ymddygiad hamdden anghyfrifol.

Disgrifiad cryno o'r diwygiadau arfaethedig o fewn Opsiwn 2A(iii)

Mae Opsiwn 2A(iii) yn cynnig rhoi pŵer i awdurdodau priffyrdd lleol ddynodi llwybrau troed cyhoeddus â hawliau ychwanegol ar gyfer reidio ceffyl a beic. Byddai hyblygrwydd hefyd i gynnwys hawliau ar gyfer cludo cerbydau dŵr nad ydynt wedi'u pweru er mwyn galluogi mynediad i ddŵr.

Byddai deddfwriaeth yn darparu ar gyfer rheoliadau i amlinellu'r broses i'w dilyn wrth asesu addasrwydd llwybr troed o safbwynt hawliau uwch, gan gynnwys cynnal ymgynghoriadau, y fethodoleg asesu, a'r meini prawf i'w defnyddio. Byddai deddfwriaeth yn darparu ar gyfer cofnodi'r hawliau diwygiedig ar fapiau a datganiadau diffiniol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus.

Yn gysylltiedig â hawliau newydd, câi awdurdodau priffyrdd lleol bwerau i reoli llwybrau troed dynodedig. Er enghraifft, addasu adeileddau ac arwyddion i hwyluso mynediad ar gyfer hawliau uwch ar lwybrau troed, a phwerau, yn ôl disgrisiwn, ar gyfer atal difrod i lwybr troed dynodedig am resymau penodol (gan gynnwys iechyd a diogelwch defnyddwyr, cadwraeth natur, ac effeithiau ar reoli tir).

Yn ogystal, byddai angen darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, ac i randdeiliaid â buddiannau, am lwybrau troed â hawliau uwch dynodedig (y'u gelwir 'yn llwybrau cyhoeddus'), drwy ddiwygiadau i arwyddion statudol diwygiedig, i'r Cod Cefn Gwlad, ac i ganllawiau eraill lle bo hynny'n berthnasol.

Diwygiad 2A: Sylwebaeth ar faterion sy'n gyffredin i bob opsiwn diwygio

Ymhlith yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth, codwyd nifer o faterion a oedd yn gyffredin i bob un o'r tri opsiwn:

- P'un a fyddai'n well cymhwyso hawliau beicio a marchogaeth ceffylau drwy statud ar draws y rhwydwaith o lwybrau troed cyhoeddus (Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii)) ynteu gymhwyso hawliau yn ddetholus fesul llwybr (Opsiwn 2A(iii)).
- Er ei bod yn ddymunol, yn gyffredinol, cael map a datganiad diffiniol cyfoes ar gyfer Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii), nid yw'n hanfodol eu cael fel rhagflaenydd i ddiwygiad o fath adran 30 [e.e. gweler elfen allweddol 004/amgen ac elfen allweddol 007 yn Opsiwn 2A(i), ac elfen allweddol 006/amgen yn Opsiwn 2A(iii)]. Rhesymwyd y gellid ei ystyried fel rhan o gyfyngu ar hawliau uwch ar lwybr cyhoeddus, neu wrth asesu addasrwydd ac anaddasrwydd llwybr troed o safbwynt hawliau uwch, ond ni fyddai'n hanfodol.
- Awgrymodd awdurdodau priffyrdd lleol ddulliau syml o ddiweddarau prosesau mapiau a datganiadau diffiniol penodol. Er enghraifft, drwy nodi ar y datganiad diffiniol yr hawliau a fyddai ar gael ar gyfer llwybrau troed unwaith y byddai newid cyfreithiol o fath adran 30 wedi digwydd.
- Byddai angen cynyddu cyflymder ac effeithlonrwydd y prosesau diwygio arfaethedig – o'u cymharu â'r prosesau presennol ar gyfer gorchmynion addasu mapiau diffiniol a gorchmynion llwybr cyhoeddus – mewn cydbwysedd â thegwch i fuddiannau gwahanol.
- Byddai'r costau a fyddai ynghlwm wrth y gwaith o weithredu'r opsiynau ac o reoli llwybrau troed cyhoeddus, yn dilyn hynny, yn cael effaith ar ddefnyddioldeb yr hawliau a ddarparwyd.
- Teimlwyd bod angen diwygio'r prosesau o safbwynt gwahardd mynediad, a chyfyngu arno, ochr yn ochr ag unrhyw ddiwygiad i hawliau tramwy cyhoeddus yn gyffredinol, ac mewn perthynas â hawliau uwch a gymhwysir i lwybrau troed cyhoeddus - er mwyn symleiddio a chyflymu prosesau a sicrhau bod modd eu cymhwyso i hawliau uwch ar lwybrau troed.
- Bydd y broses a methodoleg a ddefnyddir ar gyfer asesu addasrwydd ac anaddasrwydd hawliau uwch ar lwybrau troed cyhoeddus yn allweddol (gan gynnwys ystyried anghenion ymgymerydd statudol, fel gwaith rheoli amddiffynfeydd rhag llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru).
- Mae'r diwygiad yn rhoi cyfle i ddeddfu ar gyfer gwneud gwelliannau hygrychedd rhagweithiol i hawliau tramwy cyhoeddus yn fwy cyffredinol, yn hytrach nag ar gyfer gwneud gwelliannau ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch yn unig.
- Dylai dull awdurdod priffyrdd lleol o weithredu'r diwygiad fod wedi'i adlewyrchu yn ei gynllun statudol ar gyfer gwella mynediad [mae hyn yn gysylltiedig â chynlluniau mynediad integredig, fel yr amlinellir yn Niwygiad 3B].
- Pwysigrwyd gwybodaeth effeithiol a gyhoeddir ar-lein neu a arddangosir ar lwybrau troed.
- Bydd gwahaniaethu rhwng 'llwybrau troed â hawliau uwch' a llwybrau ceffylau neu lwybrau troed yn helpu i lywio disgwyliadau defnyddwyr o ran yr hyn y gallent ddod ar ei draws ar lwybr yn rhesymol.
- Pwysigrwyd mesurau i sicrhau y ceir gweithgareddau hamdden cyfrifol yn sgil y diwygiad hwn, a'r posibilrwydd o gysylltu cod mynediad statudol i reoli hawliau a chyfrifoldebau ynghyd â'r posibilrwydd o wahardd mynediad.
- Ychydig o ymatebion, tystiolaeth ac enghreifftiau a gafwyd mewn perthynas â'r meini prawf asesu ac ystyriaethau cyflenwi.

Mae dadansoddiad pellach o'r ymatebion a'r dystiolaeth wedi'i amlygu yn y sylwebaeth am yr opsiynau unigol yn yr adrannau canlynol isod.

Opsiwn 2A(i): Sylwebaeth ar faterion diwygio, gan ganolbwyntio ar ddeddfwriaeth

Ystyrir, yn gyffredinol, fod cyflwyno newidiadau drwy ddull cyffredinol o fath adran 30 yn ddichonol o safbwynt deddfwriaethol [elfen allweddol 001 yr opsiwn]. Gan hynny, byddai cymhwyso newid, drwy ddeddfwriaeth, i'r holl hawliau ar hyd pob llwybr troed cyhoeddus yn rhywbeth a fyddai'n gymharol hawdd ei weinyddu. Byddai hyn yn golygu darparu newid, a ffordd o weithredu hawliau uwch, sy'n eglur a hawdd eu deall. Byddai'r dull hwn yn arwain at gynnydd mawr (dros 26,000 km) o lwybrau â hawliau uwch ar draws pob rhan o Gymru. Yn amodol ar y defnydd a wnaed ohonynt yn sgil hyn, byddai'n cael effaith ar bob tiffeddiannwr sydd â llwybr troed ar draws ei dir, ac ar gerddwyr a phobl eraill â diddordeb.

Ychwanegodd elfen allweddol amgen [001/amgen] ddiwygiad a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i eitemau ychwanegol a ganiateir ar hawliau tramwy cyhoeddus gynnwys cerbydau dŵr nad ydynt wedi'u pweru'n fecanyddol, ond nid ystyriodd llawer o ymatebwyr, na'r grŵp arbenigol, fod yr elfen hon yn berthnasol i'r diwygiad hwn.

Fel rhan o'r diwygiad, byddai angen gwneud newidiadau i reoliadau sy'n llywodraethu'r prosesau ar gyfer mapiau a datganiadau diffiniol. Awgrymwyd rhai datrysiadau ymhlith yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth gan awdurdodau lleol, fel nodi hawliau cyfreithiol sy'n gymwys i ffordd yn y datganiad diffiniol ar gyfer pob llwybr troed. Ystyrir bod angen elfen allweddol y diwygiad, ond gellir ail-ymgymryd ag ystyried y manylion ymhellach pan gaiff y ddeddfwriaeth ei drafftio.

Bydd angen ystyriaeth bellach o statws y llwybrau troed a fydd yn newid o ganlyniad i'r diwygiad. Gellid rhoi term newydd i lwybrau troed cyhoeddus â hawliau uwch er mwyn helpu'r disgrifiad a dealltwriaeth ohonynt mewn cyd-destunau gwahanol. Er enghraifft, ar fapiau ac arwyddion, ar gyfer prosesau cyfreithiol, ac wrth gyfathrebu'n gyffredinol. Awgrymwyd y gellid defnyddio 'llwybr cyhoeddus' ar gyfer ffyrdd dynodedig o'r fath, gan y'i defnyddir eisoes fel disgrifiad cyfunol ar gyfer llwybrau troed a llwybrau ceffylau. Gallai newid darluniad llwybrau troed cyhoeddus sydd â hawliau llwybr troed yn unig fod yn un dull y gellid ei ddilyn, gan y byddent yn eithriad yn hytrach na'r arfer. Nododd awgrym arall y gellid cadw'r enw 'llwybr troed cyhoeddus' wrth egluro'r hawliau newydd a fyddai'n bodoli. Wrth gwrs, ceid goblygiadau adnoddau sylweddol yn sgil y newidiadau helaeth i arwyddion a mapiau.

Yn absenoldeb gwybodaeth eglur i bawb â diddordeb, ceir posibilrwydd o ddryswch ynghylch yr hawliau sydd ar gael yng Nghymru o'u cymharu â'r rheiny a geir ar lwybrau troed cyhoeddus yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys problemau y bydd yn anodd eu datrys ar gyfer llwybrau troed cyhoeddus sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, gan gynnwys Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa.

Cafwyd rhesymau â sail dystiolaeth ar gyfer darparu cyfyngiadau neu fecanweithiau ar gyfer cau er mwyn cefnogi'r gwaith ymarferol o reoli hawliau uwch ar lwybrau troed cyhoeddus. Roedd y rheiny a ddyfynnir yn cynnwys rheoli'r effeithiau ar dreftadaeth a chadwraeth natur, ar gyflwr ffisegol llwybrau, neu'r effaith anochel ar ddefnyddwyr eraill ac ar ddiogelwch defnyddwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn ymwneud ag effaith y defnydd ar lefel safle leol ar gyfer rhannau penodol o lwybrau, gan gynnwys yr effeithiau cyfnodol mewn perthynas â'r tywydd neu adegau tymhorol sensitif (e.e. ar gyfer adar sy'n nythu). O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen gweithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau ar lefel fwy helaeth, e.e. nododd Cadw'r manau lle mae rhannau o lwybrau troed cyhoeddus Llwybr

Cenedlaethol Clawdd Offa yn cydreded â Heneb Gofrestredig Clawdd Offa. O safbwynt Cadw, roedd yn debygol y byddai angen cau rhywfaint o'r heneb, neu weithredu rhywfaint o gyfyngiadau ar ei hyd, er mwyn diogelu'r rhannau ohoni sy'n agored i niwed rhag yr effaith ychwanegol a ddeuid yn sgil arfer yr hawliau uwch. Darparodd Cadw hefyd dystiolaeth i gefnogi ei safbwynt y byddai angen ystyried gwaharddiadau a chyfyngiadau amddiffynnol ar gyfer Henebion Cofrestredig eraill. Ni chyflwynwyd amcangyfrif cyffredinol o'r baich ychwanegol na'r costau cysylltiedig.

Roedd Opsiwn 2A(i) yn cynnwys cynnig ar gyfer proses cod statudol [i'w datblygu] i reoli effeithiau. Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer rheoli effeithiau'n cynnwys y canlynol:

- Cyflwyno mecanwaith gwahardd a chyfyngu newydd (heb ei ddiffinio, ond gellid ei gysylltu â Diwygiad 2B).
- Darparu mecanwaith gwahardd neu gyfyngu symlach ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus yn gyffredinol. Ni theimlwyd bod y mecanwaith gorchymyn rheoleiddio traffig o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn ddigonol oni ellid ei ddiwygio'n sylweddol.
- Darparu cafeat yn neddfwriaeth hawliau tramwy cyhoeddus i atal hawliau tramwy unigolyn yn sgil defnydd anghyfrifol diffiniedig (yn debyg i'r hyn a nodir yn adran 2 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy).

Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth glir o blaid buddion amlwg unrhyw ddull neu fecanwaith penodol o weithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau, nac ychwaith o blaid y meini prawf y dylid eu defnyddio ar gyfer barnu'n wrthrychol yng nghyd-destun y diwygiad hwn. Nodwyd hefyd y gall gorfodi cyfyngiadau neu benderfyniadau i gau fod yn anodd ei reoli yn ymarferol. Felly byddai angen gwaith datblygu pellach ynghylch dulliau posibl o weithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau – yn ystod proses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad neu'n hwyrach – er mwyn darparu mecanwaith syml ond cytbwys ochr yn ochr â diwygiadau o'r fath.

Roedd y farn, ar y cyfan, yn cefnogi'r cynnig y dylai'r gofyniad i awdurdodau priffyrdd lleol gynnal a chadw llwybrau troed ar gyfer hawliau uwch fod yn bŵer yn unig – nid yn ddyletswydd. Nododd nifer o ymatebion y byddai'r cynnydd mewn defnydd hawliau uwch ar hyd llwybrau troed yn arwain at gynnydd yn y gofynion cynnal a chadw ar awdurdodau priffyrdd lleol – hyd yn oed mewn achosion lle roedd y ddyletswydd i gynnal yn ymwneud â defnydd fel llwybr troed yn unig. (Roedd cyngor cyfreithiol³ yn tueddu i gefnogi'r safbwynt y byddai'n rhaid i awdurdodau priffyrdd lleol gyflawni gwaith cynnal a chadw i'r safonau presennol ar gyfer llwybrau troed mewn achosion lle bu cynnydd yn y gofynion cynnal a chadw yn sgil arfer hawliau newydd.) Roedd cryn lawer o ymatebwyr o'r farn y câi hyn oblygiadau adnoddau sylweddol ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol, er y byddai angen gwneud gwaith pellach i amcangyfrif costau.

Roedd llawer o ymatebwyr wedi nodi, pe byddai dyletswydd i gynnal a chadw llwybrau troed ar gyfer hawliau uwch, y byddai hyn yn arwain at gostau uwch sylweddol iawn. Er enghraifft, atgyweiriadau i'r wyneb neu osod pontydd i geffylau yn lle pontydd troed – er nad oes amcangyfrif o'r costau wedi'i wneud. Cafwyd cefnogaeth hefyd am y safbwynt y byddai nifer o effeithiau ar reoli tir o ganlyniad i ddefnydd hawliau uwch ar llwybrau troed (e.e. lledu llwybrau).

Nododd nifer o ymatebion gan awdurdodau lleol (rhai ohonynt â thystiolaeth) faterion sylweddol, sydd eisoes yn bodoli, mewn perthynas â chynnal a chadw hawliau tramwy

³ Cyngor cyfreithiol allanol i Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Medi 2020

cyhoeddus, a'r beichiau eraill y maent yn eu hysgwyddo, nad ydynt wedi'u lleddfu ar hyn o bryd, a'i bod yn bwysig ystyried y rhain wrth roi'r hawliau newydd ar waith yn ymarferol.

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol, a thystiolaeth, am yr angen i ddarparu dull statudol ychwanegol i wella hygyrchedd hawliau tramwy cyhoeddus er mwyn hwyluso defnydd hawliau uwch ar hyd llwybrau troed. Nodwyd bod y goblygiadau i adeileddau sydd mewn perchenogaeth breifat ar hyd hawliau tramwy cyhoeddus (yn enwedig gatiâu a chamfeydd) yn fater y byddai angen ei ystyried (gan gynnwys ceisio cyngor cyfreithiol) wrth wneud diwygiad o'r fath. Nodwyd y gellir gwneud gwelliannau i hygyrchedd mewn ffordd fwy anffurfiol, neu drwy fecanweithiau sydd eisoes yn bodoli, e.e. yn yr un modd ag adran 66,⁴ ceir mecanwaith posibl ar gyfer gwella adeileddau ar hawliau tramwy cyhoeddus yn adran 147ZA o'r Ddeddf Priffyrdd.⁵ Ceir goblygiadau o safbwynt cofnodi adeileddau a awdurdodir ar hawl dramwy gyhoeddus (gweler adran 147 o'r Ddeddf Priffyrdd)⁶ fel cyfyngiadau o fewn datganiadau diffiniol, ac o safbwynt sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael. Mae tystiolaeth o waith ymchwil gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2020⁷ yn dangos bod gan lawer o awdurdodau priffyrdd lleol ddata o Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol am adeileddau ar hawliau tramwy cyhoeddus, ond yn aml nid yw hwn wedi'i gysylltu â chofnodion cyfreithiol. Gellid ystyried yr agwedd hon yn fwy manwl fel maes ar gyfer cefnogi'r prif ddiwygiad.

Ceir hefyd dystiolaeth ddangosol, nad yw'n gyfoes, am raddfa'r rhwystrau anghyfreithlon a phroblemau, fel arwyddion annigonol, a fyddai'n cael effaith ar ddefnyddwyr hawliau uwch ar hyd llwybrau troed. Adlewyrchodd sawl safbwynt y teimlad y byddai'r diwygiad, ynghyd â nifer y problemau a geir eisoes yn y rhwydwaith o lwybrau troed, yn debygol o gynyddu'r galw am waith gorfodi a chynnal a chadw. Mae mecanweithiau statudol eisoes yn bodoli ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau, ond cyfeiriwyd at y diffyg adnoddau ariannol ac adnoddau dynol, y cyflwynwyd tystiolaeth ohono, fel ffactorau a fyddai'n cael effaith ar weithredu'r diwygiad (yn yr un modd â llawer o'r diwygiadau).

Cafwyd cydnabyddiaeth eang iawn bod darparu gwybodaeth i gyd-fynd â'r newidiadau (gan gynnwys codau ymddygiad, a chanllawiau a chynghor ar gyfer defnyddwyr, rheolwyr tir ac eraill) a chynnal ymgyrchoedd cyfathrebu mewn perthynas â'r newidiadau yn bwysig ac yn hanfodol. Yn yr un modd, cafwyd cydnabyddiaeth o'r posibilrwydd o gyflwyno cynlluniau ar gyfer taliadau rheoli tir yn y dyfodol i gefnogi'r gwaith o wella llwybrau ar gyfer hawliau uwch.

Opsiwn 2A(ii): Sylwebaeth ar faterion diwygio, gan ganolbwyntio ar ddeddfwriaeth

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), ystyrir, yn gyffredinol, fod cyflwyno newidiadau drwy ddull cyffredinol o fath adran 30 yn ddichonol o safbwynt deddfwriaethol [elfen allweddol 001 yr opsiwn]. Gan hynny, byddai cymhwyso newid, drwy ddeddfwriaeth, i'r holl hawliau ar hyd pob llwybr troed cyhoeddus yn rhywbeth a fyddai'n gymharol hawdd ei weinyddu. Byddai hyn yn golygu darparu newid, a ffordd o weithredu hawliau uwch, sy'n eglur a hawdd eu deall. Byddai'r dull hwn yn arwain at gynnydd mawr (dros 26,000 km) o lwybrau â hawliau uwch ar draws pob rhan o Gymru. Yn amodol ar y defnydd a wnaed ohonynt yn sgil hyn, byddai'n cael effaith ar bob tîrfeddiannwr sydd â llwybr troed ar draws ei dir, ac ar gerddwyr a phobl eraill â diddordeb.

⁴ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1980/66/section/147ZA>

⁵ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1980/66/section/66>

⁶ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1980/66/section/147>

⁷ Dadansoddi Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cymru, CNC, 2020 (adroddiad ymchwil am dystiolaeth yn ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus a data digidol)

Ychwanegodd elfen allweddol amgen [001/amgen] gynnig a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i eitemau ychwanegol a ganiateir ar hawliau tramwy cyhoeddus gynnwys cerbydau dŵr nad ydynt wedi'u pweru'n fecanyddol (ond nid ystyriwyd, yn gyffredinol, bod hyn yn berthnasol i'r diwygiad hwn).

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), byddai angen gwneud newidiadau i reoliadau yn sgil newidiadau i'r prosesau ar gyfer mapiau a datganiadau diffiniol. Awgrymwyd rhai datrysiadau, fel nodi hawliau cyfreithiol sy'n gymwys i ffordd yn y datganiad diffiniol ar gyfer pob llwybr troed. Gellir ail-ymgymryd ag ystyried y manylion ymhellach pan gaiff y ddeddfwriaeth ei drafftio.

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), byddai angen ystyried statws y llwybrau troed a fydd yn newid o ganlyniad i'r diwygiad. Gellid rhoi term newydd i lwybrau cyhoeddus â hawliau uwch er mwyn helpu'r disgrifiad a dealltwriaeth ohonynt mewn cyd-destunau gwahanol. Er enghraifft, ar fapiau ac arwyddion, ar gyfer prosesau cyfreithiol, ac wrth gyfathrebu'n gyffredinol. Awgrymwyd y gellid defnyddio 'llwybr cyhoeddus', gan y'i defnyddir eisoes fel disgrifiad cyfunol ar gyfer llwybrau troed a llwybrau ceffylau. Gallai newid darluniad llwybrau troed cyhoeddus sydd â hawliau llwybr troed yn unig fod yn un dull y gellid ei ddilyn, gan y byddent yn eithriad yn hytrach na'r arfer. Nododd awgrym arall y gellid cadw'r enw 'llwybr troed cyhoeddus' wrth egluro'r hawliau newydd a fyddai'n bodoli. Nodwyd y gallai hynny helpu i lywio disgwyliaadau defnyddwyr o ran yr hyn y gallent ei ddisgwyl ar lwybr na fyddai'n rhaid ei gynnal a'i gadw ar gyfer hawliau uwch, ac na fyddai, o bosib, yn addas ar gyfer defnydd o'r fath.

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), ceir posibilrwydd o ddryswch â llwybrau troed cyhoeddus yn Lloegr, gan gynnwys y problemau y bydd yn anodd eu datrys ar gyfer llwybrau troed cyhoeddus sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, y mae rhai ohonynt â phroffil uchel, fel Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa.

Byddai asesiadau o anaddasrwydd, sydd wedi'u cynnwys yn Opsiwn 2A(ii), yn lleihau'r angen i ddefnyddio mecanweithiau gwahardd a chyfyngu, yn ôl y graddau y cânt eu cymhwyso i lwybrau troed, o'i gymharu ag Opsiwn 2A(i). Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn awgrymu y bydd yr angen i weithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau yn parhau er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli hawliau uwch ar lwybrau troed cyhoeddus. Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), roedd hyn yn cynnwys rheoli effeithiau hawliau uwch ar safleoedd treftadaeth a chadwraeth natur, ar gyflwr ffisegol llwybrau, a lle ceid effaith anochel ar ddefnyddwyr eraill, neu effaith ar iechyd a diogelwch defnyddwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn ymwneud ag effeithiau ar lefel y safle lleol neu ar hyd rhannau penodol o lwybrau, ynghyd ag effeithiau cyfnodol lleol mewn perthynas â'r tywydd neu adegau tymhorol sensitif (e.e. ar gyfer adar sy'n nythu). Awgrymwyd y dylai pwerau gwahardd a chyfyngu o'r fath ei gwneud yn bosib rheoli effeithiau a achosir gan unrhyw ddefnyddiwr hamdden, nid defnyddwyr sy'n arfer hawliau uwch yn unig. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen gweithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau ar lefel fwy helaeth, e.e. cyflwynodd Cadw dystiolaeth i gefnogi ei safbwynt ei bod yn debygol y bydd angen gweithredu gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar gyfer nifer o Henebion Cofrestredig. Er enghraifft, mae'r llwybrau troed cyhoeddus sy'n ffurfio Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yn aml yn cydreddeg â Heneb Gofrestredig Clawdd Offa. Teimlodd Cadw y byddai'n debygol y byddai angen rhoi gwaharddiadau a chyfyngiadau ar waith ar hyd sawl rhan o Glawdd Offa er mwyn diogelu'r heneb rhag yr effaith ychwanegol a ddeuid yn sgil arfer hawliau uwch.

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), roedd Opsiwn 2A(ii) yn cynnwys cynnig ar gyfer proses cod statudol i reoli'r effeithiau a fyddai'n deillio o'r diwygiad, neu eu hatal. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys y canlynol: cyflwyno mecanwaith newydd (heb ei ddiffinio, ond gellid ei gysylltu â Diwygiad 2B), addasu'r mecanwaith gorchymyn rheoleiddio traffig o dan Ddeddf

Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984,⁸ neu ddarparu cafeat i hawliau, yn debyg i'r hyn a bennir yn adran 2 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, sy'n nodi y caiff hawliau mynediad eu hatal lle yr eir yn groes i ofynion Atodlen 2. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ymhlith yr ymatebion o blaid buddion amlwg unrhyw ddull neu fecanwaith penodol o weithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau, nac ychwaith o blaid y meini prawf y dylid eu defnyddio ar gyfer gwneud beirniadaethau o'r fath, felly byddai angen gwaith datblygu pellach o ran hynny – naill ai yn ystod proses y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad, neu, i fod yn realistig, yn ddiweddarach.

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), nid oedd yr elfennau allweddol yn Opsiwn 2A(ii) yn cynnwys cynigion ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol gynnal a chadw llwybrau troed ar gyfer hawliau uwch. Er gwaethaf hynny, o blith nifer o ymatebion â thystiolaeth, a gefnogwyd gan farn gyfreithiol a geisiwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, codwyd y ffaith y byddai angen i'r awdurdodau wneud mwy o waith cynnal a chadw i lwybrau troed cyhoeddus er mwyn iddynt allu bodloni eu dyletswyddau parhaus o ran cynnal a chadw'r llwybrau troed ar gyfer cerddwyr. Roedd cryn lawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r diwygiad hwn yn arwain at oblygiadau adnoddau sylweddol ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol, er nad yw costau o'r fath wedi'u hamcangyfrif. Pe byddai dyletswydd i gynnal a chadw llwybrau troed ar gyfer hawliau uwch (a gynigiwyd fel 'elfen allweddol amgen'), teimlodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y byddai hyn yn arwain at gostau sylweddol uwch, e.e. wrth osod pontydd i geffylau yn lle pontydd troed, er nad oes amcangyfrif wedi'i wneud o'r costau. Nododd nifer o ymatebion gan awdurdodau lleol (rhai ohonynt â thystiolaeth) faterion sylweddol, sydd eisoes yn bodoli, mewn perthynas â chynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus, a'r beichiau eraill y maent yn eu hysgwyddo, nad ydynt wedi'u lleddfu ar hyn o bryd, a'i bod yn bwysig ystyried y rhain wrth roi'r hawliau newydd ar waith yn ymarferol.

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), cafwyd cefnogaeth gyffredinol, a thystiolaeth, am yr angen i ddarparu dull statudol ychwanegol i wella hygyrchedd hawliau tramwy cyhoeddus er mwyn hwyluso defnydd hawliau uwch ar hyd llwybrau troed. Nodwyd bod y goblygiadau i adeileddau sydd mewn perchenogaeth breifat ar hyd hawliau tramwy cyhoeddus (yn enwedig gatiâu a chamfeydd) yn fater y byddai angen ei ystyried wrth wneud diwygiad o'r fath. Nodwyd y gellir gwneud gwelliannau i hygyrchedd ar sail fwy ad hoc, neu drwy fecanweithiau sydd eisoes yn bodoli, e.e. fel adran 147ZA⁹ neu adran 66¹⁰ o Ddeddf Priffyrdd 1980. Yr hyn na ddarperir ar ei gyfer yn yr opsiynau yw'r goblygiadau o safbwynt cofnodi awdurdodiadau a chyfyngiadau ar hawliau tramwy cyhoeddus o dan adran 147 o'r Ddeddf Priffyrdd o fewn mapiau a datganiadau diffiniol, a'r graddau y bydd gwybodaeth o'r fath ar gael. Mae tystiolaeth o waith Dadansoddi Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cymru, sef ymchwil gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2020, yn dangos bod gan lawer o awdurdodau priffyrdd lleol ddata o Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol am adeileddau ar hawliau tramwy cyhoeddus, ond yn aml nid yw hwn wedi'i gysylltu â'r cofnodion cyfreithiol a grybwyllir. Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), gellid ystyried yr agwedd hon yn fwy manwl fel maes i'w ystyried ar gyfer hwyluso'r gwaith o weithredu'r prif ddiwygiad.

Fel y nodwyd ar gyfer Opsiwn 2A(i), ceir tystiolaeth ddangosol ynghylch graddau'r rhwystrau anghyfreithlon a phroblemau (megis arwyddion) a fyddai'n cael effaith ar ddefnyddwyr sy'n

⁸ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1984/27/contents>

⁹ Mae adran 147ZA o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn darparu ar gyfer cytundebau i wella adeileddau fel camfeydd neu gatiâu ar hawliau tramwy cyhoeddus, neu osod rhai newydd yn lle hen rai, er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch

¹⁰ Mae adran 66 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn caniatáu awdurdodau lleol i godi mathau penodol o adeileddau, eu cynnal a'u cadw, eu haddasu neu eu tynnu er mwyn diogelu pobl sy'n defnyddio priffordd [gan gynnwys hawl dramwy gyhoeddus]

arfer hawliau uwch ar lwybrau troed. Ystyriwyd hefyd y byddai hawliau ychwanegol yn debygol o gynyddu'r galw am waith orfodi a chynnal a chadw. Mae mecanweithiau statudol eisoes yn bodoli ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau, ond cyfeiriwyd eto at y gofynion ar adnoddau ariannol ac adnoddau dynol (ac y tystiwyd eu bod yn ffactorau), fel y nodwyd uchod.

Fodd bynnag, o'i gymharu ag Opsiwn 2A(i), byddai'r asesiadau o anaddasrwydd y mae Opsiwn 2A(ii) yn eu cynnwys yn lleihau'r angen i orfodi a/neu wneud gwelliannau i hygyrchedd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ag adeileddau ar lwybrau troed (yn rhai cyfreithlon neu anghyfreithlon), a materion eraill fel rhwystrau, gwelliannau i arwyddion, neu newidiadau, ond ni fyddent yn cael gwared ar yr angen hwnnw. Byddai'r effaith yn gymesur â'r gwaith o gynnal asesiadau anaddasrwydd o'r fath.

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), cafwyd cydnabyddiaeth eang iawn bod darparu gwybodaeth i gyd-fynd â'r newidiadau (gan gynnwys codau ymddygiad, a chanllawiau a chyngor ar gyfer defnyddwyr, rheolwyr tir ac eraill) a chynnal ymgyrchoedd cyfathrebu mewn perthynas â'r newidiadau yn bwysig ac yn hanfodol. Yn yr un modd, cafwyd cydnabyddiaeth o'r ffaith y byddai'n ddymunol cyflwyno unrhyw gynlluniau ar gyfer taliadau rheoli tir ar ôl Brexit er mwyn hybu'r gwaith o wella llwybrau ar gyfer hawliau uwch.

Opsiwn 2A(iii): Sylwebaeth ar faterion diwygio, gan ganolbwyntio ar ddeddfwriaeth

Ystyrir, yn gyffredinol, fod cyflwyno newidiadau drwy ddull addasrwydd detholus yn ddichonol o safbwynt deddfwriaethol [elfen allweddol 001 yr opsiwn].

Mae'n anodd pennu faint o'r 26,000 km a mwy o lwybrau troed diffiniol yng Nghymru a gâi ei ddynodi â hawliau uwch. Bydd yn dibynnu ar y broses a sefydlir ac adnoddau awdurdodau priffyrdd lleol. Mae gwaith ymchwil Llywodraeth Cymru o 2017 yn darparu dangosydd defnyddiol o ddefnydd prosesau cyfreithiol gan awdurdodau priffyrdd lleol yng Nghymru (fel gorchmynion llwybrau cyhoeddus) a'r costau cysylltiedig. Er enghraifft, adroddodd yr ymchwil, ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2011/12 a 2015/16, fod 15 awdurdod yng Nghymru wedi gwneud 109 o gytundebau creu o dan adran 25 o'r Ddeddf Priffyrdd, a 69 o orchmynion creu diwrthwynebiad o dan adran 26 (h.y. pennwyd ychydig o dan 2.5 hawl dramwy gyhoeddus fesul awdurdod priffyrdd lleol fesul blwyddyn); y gost gyfartalog a adroddwyd fesul cytundeb adran 25 oedd £1,838, a £2,544 ar gyfer cytundeb adran 26. Byddai angen cael adnoddau a chymhellion ychwanegol sylweddol er mwyn i awdurdodau priffyrdd lleol ddynodi nifer sylweddol o lwybrau troed â hawliau uwch. Mae gwaith ymchwil i'r graddau y mae awdurdodau priffyrdd lleol yn defnyddio'u pwerau ar hyn o bryd, i'r beichiau a ysgwyddir ganddynt, ac i lefelau cyllid yn dangos y câi nifer sylweddol llai o hawliau uwch eu dynodi o dan Opsiwn 2A(iii) o'i gymharu â dynodi hawliau drwy ddull cyffredinol, statudol o dan Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii). Byddai'r effeithiau ar dirfeddianwyr, a'r goblygiadau o safbwynt rheoli tir, hefyd yn sylweddol llai.

Mae'r ymatebion a gafwyd gan nifer o awdurdodau priffyrdd lleol yn dangos y byddai'r defnydd o bwerau dynodi addasrwydd o fath Opsiwn 2A(iii) gan awdurdodau priffyrdd lleol yn amodol ar yr adnoddau a fyddai ar gael. Mae'r gofynion ar gyfer sicrhau prosesau sy'n gyfreithiol deg, a chytbwys, yn debygol o olygu y gellir cymharu proses o'r math a gynigir gan Opsiwn 2A(iii) â phrosesau gorchmynion llwybr cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli. Mae tystiolaeth yn dangos bod gallu cyfyngedig iawn ar gael ar hyn o bryd i gyflawni gorchmynion llwybr cyhoeddus (gweler gwaith ymchwil Llywodraeth Cymru yn 2017 i nifer y gorchmynion a weithredwyd o dan adran 25 ac adran 26 o'r Ddeddf Priffyrdd). Nododd nifer o sylwadau hefyd fod y pwerau a gynigir ar gyfer Opsiwn 2A(iii) yn debyg i'r pwerau sydd eisoes yn bodoli yn adran 25 ac adran 26 o'r Ddeddf Priffyrdd ar gyfer creu hawliau uwch ar lwybrau cyhoeddus [ac mewn manau eraill].

Fel y dangosir uchod, byddai dull seiliedig ar Opsiwn 2A(iii) yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol is mewn hawliau beicio a marchogaeth ceffylau – er y byddai hyn yn amodol ar y dull a ddilynir gan awdurdodau priffyrdd lleol unigol, a'u blaenoriaethau, ac unrhyw adnoddau ychwanegol a ddyrennir. Yn gymesur â'r defnydd a wnaed o'r pwerau diwygio a ddarperir o ganlyniad, byddai'r opsiwn yn cael effaith ar lai o dirfeddianwyr sydd â llwybrau cyhoeddus yn croesi eu tir, ac yn cael llai o effaith ar ddefnyddwyr hamdden eraill a phobl eraill â diddordeb.

Yn yr un modd â phrosesau adran 25 ac adran 26 o'r Ddeddf Priffyrdd, gallai fod angen gwneud taliadau iawndal os caiff dull o fath Opsiwn 2A(iii) ei fabwysiadu (h.y. proses ddetholus o gymhwyso hawliau) o greu hawliau uwch ar lwybrau troed, er nad oedd y cyngor a roddwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru¹¹ yn gyfreithiol derfynol ar y pwynt hwn.

Bydd cyngor cyfreithiol pellach yn helpu i ddangos p'un a ddylid darparu ar gyfer proses iawndal ar gyfer yr hawliau uwch a grëir o fewn y broses a ragwelir ar gyfer Opsiwn 2A(iii).

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii), byddai prosesau map a datganiad diffiniol yn golygu bod angen gwneud newidiadau i reoliadau. Awgrymwyd nifer o ddatrysiadau syml posibl (fel nodi hawliau cyfreithiol sy'n gymwys i ffordd yn y datganiad diffiniol ar gyfer pob llwybr troed). Fel arall, gallai eu dynodi olygu eu bod yn cael eu diffinio fel llwybrau ceffylau gyda'r gorchmynion addasu mapiau diffiniol fel digwyddiad cyfreithiol cysylltiedig. Gellir ailymgymryd ag ystyried materion o'r fath ymhellach pan gaiff y ddeddfwriaeth ei drafftio.

Yn wahanol i Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii), byddai newidiadau i lwybrau troed cyhoeddus yn digwydd yn raddol, a gellid nodi materion, a mynd i'r afael â hwy, fel rhan o'r broses pennu addasrwydd. Gallai'r broses ystyried, mewn ffordd ragweithiol, amrediad o faterion, e.e. iechyd a diogelwch, effeithiau ar safleoedd cadwraeth natur a threftadaeth dynodedig, ble mae llwybrau troed cyhoeddus yn arwain at y ffin rhwng Cymru a Lloegr, neu'n ei chroesi, neu ble mae llwybr yn cynnwys llwybr hamdden pwysig fel Llwybr Arfordir Cymru.

Yn amodol ar y broses a sefydlir, byddai asesiadau o addasrwydd llwybrau troed yn tueddu i osgoi dynodi llwybrau troed lle na fyddai effaith hawliau uwch yn gynaliadwy (e.e. effeithiau ar safleoedd cadwraeth dynodedig bregus, neu oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch). Byddai mabwysiadu Opsiwn 2A(iii) hefyd yn debygol o leihau'r angen i ddefnyddio cyfyngiadau ar lwybrau troed dynodedig o'i gymharu ag Opsiwn 2A(i) ac, i raddau llai, Opsiwn 2A(ii).

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii), dangosodd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ynghylch effeithiau gweithgareddau hamdden a fyddai'n deillio o fabwysiadu'r opsiwn y byddai'r effeithiau hynny'n digwydd ar lefel y safle lleol neu ar hyd rhannau penodol o lwybr, a hefyd oherwydd ffactorau cyfnodol fel y tywydd neu adegau tymhorol sensitif (e.e. ar gyfer adar sy'n nythu). Gallai diwygio mecanweithiau gwahardd a chyfyngu ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus (e.e. ehangu adran 22 neu adran 22A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984) roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau priffyrdd lleol ddynodi llwybrau ar gyfer hawliau uwch, gan wybod bod mecanwaith addas ar gael iddynt er mwyn eu rheoli mewn modd hyblyg. Er enghraifft, mewn achosion lle bo materion yn rhai tymhorol.

Yn wahanol i Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii), mae Opsiwn 2A(iii) yn cynnwys diwygiadau i'r Cod Cefn Gwlad cynghorol.

Roedd nifer o'r ymatebion, rhai ohonynt â thystiolaeth, wedi codi'r pwynt y byddai'n debygol y byddai angen gwneud mwy o waith cynnal a chadw ar lwybrau dynodedig er mwyn i awdurdodau priffyrdd lleol gyflawni eu dyletswyddau ar gyfer defnydd llwybrau troed arferol. Byddai'r goblygiadau adnoddau ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol yn llywio, ac yn dibynnu

¹¹ Cyngor cyfreithiol allanol i Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Medi 2020.

ar, y graddau y câi'r pwerau a ddarperir eu defnyddio. Er y ceir awgrym o gostau uned amcangyfrifedig y broses yng ngwaith ymchwil Llywodraeth Cymru yn 2017 (gweler uchod), ni cheir unrhyw gymhariaeth uniongyrchol o'r costau cyffredinol, ac nid ydynt wedi'u meintoli. Bydd angen gwaith pellach er mwyn pennu ystod y costau amcangyfrifedig, a'r uchafswm ar gyfer yr opsiwn.

Yn yr un modd â'r opsiynau eraill ar gyfer 2A, dylid ystyried p'un a ddylai Opsiwn 2A(iii) bennu'r cyfrifoldebau cynnal a chadw ar gyfer y llwybrau dynodedig. Nododd nifer o ymatebion gan awdurdodau lleol (rhai ohonynt â thystiolaeth) faterion sylweddol, sydd eisoes yn bodoli, mewn perthynas â chynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys beichiau eraill y maent eisoes yn eu hysgwyddo, nad ydynt wedi'u lleddfu ar hyn o bryd, a'i bod yn bwysig ystyried y rhain wrth roi'r hawliau newydd ar waith yn ymarferol.

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii), cafwyd cefnogaeth gyffredinol, a thystiolaeth, am yr angen i ddarparu dull statudol ychwanegol i wella hygyrchedd llwybrau troed dynodedig er mwyn hwyluso defnydd hawliau uwch newydd. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y gellir gwneud gwelliannau o'r fath mewn ffordd fwy anffurfiol, neu drwy fecanweithiau sydd eisoes yn bodoli, e.e. fel adran 147ZA neu adran 66 o'r Ddeddf Priffyrdd.

Er mwyn cyflawni bwriad Llywodraeth Cymru ar lefel helaeth, byddai angen i awdurdodau priffyrdd lleol gynllunio ar gyfer creu llwybrau troed â hawliau uwch, eu hasesu a'u dynodi mewn modd systematig, a sicrhau eu bod ar gael, a hynny'n ddelfrydol drwy gysylltu'r gwaith hwn â Diwygiad 3B (cynlluniau mynediad integredig). Byddai angen sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael iddynt er mwyn eu galluogi i wneud hyn.

Disgwylid yr eid i'r afael â rhwystrau anghyfreithlon, a phroblemau eraill ar lawr gwlad (fel arwyddion) a fyddai'n cael effaith ar ddefnyddwyr hawliau uwch ar lwybrau troed dynodedig, yn ystod y broses ddynodi drwy arfer pwerau awdurdod priffyrdd lleol sydd eisoes yn bodoli. Yn yr un modd, byddai angen mynd i'r afael â'r gwaith o ymdrin â materion ynghylch diffiniadau cyfreithiol, a byddai hyn yn cael effaith ar waith cyflenwi o ganlyniad. Effaith asesu addasrwydd llwybrau troed o safbwynt hawliau uwch byddai 'cyflwyno' materion sy'n ymwneud â materion cyfreithiol neu orfodi na fyddai awdurdodau priffyrdd lleol wedi mynd i'r afael â nhw, nad oeddent wedi'u datrys, neu nad oedd awdurdodau'n ymwybodol ohonynt. Byddai'r effaith yn gymesur â'r gwaith o weithredu'r asesiadau o addasrwydd a gynhaliwyd.

Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii), cafwyd cydnabyddiaeth eang bod darparu gwybodaeth i gyd-fynd â'r newidiadau (gan gynnwys codau ymddygiad, a chanllawiau a chyingor ar gyfer defnyddwyr, rheolwyr tir ac eraill) a chynnal ymgyrch gyfathrebu mewn perthynas â'r newidiadau yn hanfodol. Yn yr un modd, cafwyd cydnabyddiaeth o'r ffaith y byddai'n ddymunol cyflwyno unrhyw gynlluniau ar gyfer taliadau rheoli tir ar ôl Brexit er mwyn hybu'r gwaith o wella llwybrau ar gyfer hawliau uwch.

Tabl 2: Meini prawf asesu ar gyfer Diwygiad 2B

Gosododd rhaglen y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad nifer o feini prawf y cafodd mesurau eu datblygu yn eu herbyn i asesu cynigion diwygio. Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan ymatebwyr allanol a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael ei defnyddio i ddatblygu'r tabl canlynol o feini prawf asesu. Mae'r tri opsiwn wedi'u cyflwyno ochr yn ochr er mwyn cynorthwyo cymhariaeth rhyngddynt.

Teitlau'r cynigion amlinellol:	Disgrifiad o'r meini prawf a mesurau	Opsiwn 2A(i): Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol [dull adran 30]	Opsiwn 2A(ii): Hawliau uwch wedi'u cymhwyso i lwybrau troed gyda phwerau i wahardd ar sail anaddasrwydd	Opsiwn 2A(iii): Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed fesul achos ac ar sail ddetholedig
Disgrifiad cryno o'r cynigion amlinellol:	Amherthnasol	Datblygu'r gwaith o gymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol, gan ddefnyddio dull o fath adran 30 Deddf Cefn Gwlad 1968, gyda chafeat neu gymal o ran gofyniad am ddefnydd cyfrifol.	Hawliau uwch wedi'u cymhwyso ar draws y rhwydwaith o lwybrau troed. Byddai gan awdurdodau priffyrdd lleol bwerau i asesu anaddasrwydd llwybrau o safbwynt hawliau uwch. Gellid cyflwyno gwaharddiad i lwybrau pe aseswyd bod hawliau'n anaddas. Byddai 'anaddasrwydd' yn cael ei bennu ar sail proses a meini prawf asesu ffurfiol (o dan y teitl 'asesiad anaddasrwydd').	Cymhwyso hawliau uwch fesul achos, trwy broses o asesu sydd wedi'i chysylltu â'r cynllun ffermydd trwy ddyletswydd i werthuso'r rhwydwaith wrth i'r awdurdod lleol gymhwyso meini prawf safonol sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.
Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn:	Amherthnasol	Rhoi estyniad i'r amrediad o weithgareddau y gall y cyhoedd ymgymryd â nhw yn ôl eu hawliau ar hyd pob llwybr troed yng Nghymru. Byddai darpariaeth o fath adran 30 Deddf Cefn Gwlad 1968 yn rhoi hawliau i feicwyr a marchogwyr ceffylau ddefnyddio llwybrau troed, ac ni fyddai gan awdurdodau lleol unrhyw gyfrifoldeb dros gynnal a chadw neu wella llwybrau troed at ddefnydd hawliau uwch. Byddai cymal neu gafeat yn y ddeddfwriaeth hefyd yn cael ei roi yn ei le er mwyn darparu mecanwaith ar gyfer gwahardd a chyfyngu ar fynediad.	Hawliau uwch wedi'u cymhwyso ar draws y rhwydwaith o lwybrau troed yn dilyn dull o'r fath adran 30 a amlinellwyd yn Niwygiad 2A(iii). Byddai pwerau'n cael eu darparu ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol i'w galluogi i asesu anaddasrwydd llwybrau o safbwynt hawliau uwch. Gellid cyflwyno gwaharddiad i lwybrau pe aseswyd bod hawliau'n anaddas. Byddai 'anaddasrwydd' yn cael ei bennu ar sail proses a meini prawf asesu ffurfiol (o dan y teitl 'asesiad anaddasrwydd').	Trwy gais, fesul achos, i'r awdurdod lleol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol, ar gyfer cael estyniad i'r weithgareddau y gall y cyhoedd eu gwneud ar lwybrau troed drwy hawl. Cynnwys mathau o weithgareddau hamdden nad ydynt wedi'u pweru'n fecanyddol, gan gynnwys beicio a marchogaeth ceffylau (peidio â dilyn dull cyffredinol fel y nodir yn yr opsiwn diwygio uchod).
Graddau'r mynediad	<p>Swm y mynediad 'drwy hawl' y ceir effaith arno. Ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - cyfansymiau [e.e. km/ha; %]; - % newidiadau; dosbarthiad: ble a sut y maent wedi'u dosbarthu yng Nghymru - mesurau yn cynnwys symiau absoliwt a/neu gymharol, e.e. fel newid o'r sefyllfa bresennol; o'u cymharu ag opsiynau eraill 	<p>Byddai hawliau uwch yn gymwys i bob llwybr troed – ar y cychwyn o leiaf, fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • = tua 79% o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus; • = tua 26,320 km o lwybrau troed • Amcangyfrifir mai cyfanswm yr holl hawliau tramwy cyhoeddus yw 33,211 km [*] <p>Cymerir na fyddant yn gymwys i lwybrau troed nad ydynt yn rhai dynodedig.</p> <p>Câi'r hawliau eu dosbarthu ar draws Cymru gyfan ni waeth cyd-destun yr awdurdod lleol.</p> <p>Byddai'n arwain at gynnydd o 26,320 km yn y llwybrau â hawliau uwch o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. O ganlyniad, amcangyfrifir y byddai cyfanswm y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn 6,891 km (cynnydd o 480% yn yr hawliau sydd ar gael).</p> <p>Cynnydd yn y rhwydweithiau o lwybrau cysylltiedig a hygyrch [heb ei feintio] – gan gynnwys mynediad cyhoeddus oddi ar y ffordd (hydoedd yn seiliedig ar Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy Cymru 2002). Er nad yw'r wybodaeth yn gyfoes bellach, disgwylir mai bach iawn o newid sydd wedi digwydd i'r rhwydwaith. Mae manwl gywirdeb data'r awdurdodau priffyrdd lleol yn debygol o fod wedi gwella; nid oes sicrhau ansawdd cyfatebol, gan fod y casgliad o ddata Cymru gyfan ar gael.</p>	<p>Yn gyffredinol, gellir ei gymhwyso i ddiffinio 26,320 km o lwybrau troed yn y lle cyntaf – gweler amcangyfrifon ar gyfer Opsiwn 2A(i). Yn debygol o arwain at nifer gymharol lai o hawliau o'i gymharu ag Opsiwn 2A(i). Bydd y swm gwirioneddol yn amodol ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwmpas y broses pennu anaddasrwydd o ran datgymhwyso hawliau • Pennu dyletswydd i asesu anaddasrwydd, neu bwerau yn ôl disgrisiwn • Darparu hawl i wneud cais am asesiad o anaddasrwydd • Manylion y meini prawf, a'r broses ar gyfer pennu anaddasrwydd • Sut y câi'r broses pennu anaddasrwydd a gwaharddiadau a chyfyngiadau eu cymhwyso gan awdurdodau priffyrdd lleol / Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn ymarferol – mae'n debygol y ceir posibilrwydd o wahaniaethau yng ngallu awdurdodau, ac yn yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau priffyrdd lleol / Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar draws Cymru <p>Mae ymchwil gan Land Use Consultants (LUC) (ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2020) yn dangos bod yr amgylchedd ffisegol (er enghraifft, llechwedd, math o bridd a glawiad) yn bwysig o ran pennu pa mor agored i niwed y mae lleoliadau penodol i'r effeithiau sy'n deillio o ddefnydd hamdden. Byddai'r rhain (ynghyd â meini prawf eraill) yn cael eu cynnwys mewn unrhyw asesuadau o anaddasrwydd. Gallant hefyd ei gwneud yn bosibl amcangyfrif ehangder a dosbarthiad llwybrau troed a allai fod yn fregus. Byddai angen profi dulliau ymhellach, a phennu meini prawf ychwanegol, er mwyn cael amcangyfrif dangosol, ar lefel rwydwaith, o raddau'r llwybrau anaddas.</p>	<p>Byddai graddau'r hawliau newydd a ddarperir yn amodol ar sut y câi pwerau eu gweithredu. Dros amser, bydd rhywfaint o gynnydd yn yr hawliau mynediad a fyddai ar gael i feicwyr a marchogwyr ceffylau – ond bydd yr amser a dreulir cyn eu darparu yn amodol ar sut y caiff y diwygiad ei fframio a'i weithredu.</p> <p>Fodd bynnag, byddai swm dangosol yn awgrymu mai cyfran fechan o'r hawliau a grëid gan Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii) y câi ei chreu, fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • < 1 [un] gorchymyn creu o dan adran 26, neu gytundeb o dan adran 25 a wnaed, fesul awdurdod priffyrdd lleol y flwyddyn, yng Nghymru a Lloegr rhwng 1986 a 2000 (cyf: Ridall a Trevelyan, 2001) • < 2 [dau] orchymyn aiddosbarthu Ffordd a Ddefnyddir fel Llwybr Cyhoeddus a wnaed, fesul awdurdod priffyrdd lleol y flwyddyn, yng Nghymru a Lloegr rhwng 1986 and 2000 (cyf: ibid.) • Gwneir rhwng 10 a 15 o orchymynion llwybrau cyhoeddus y flwyddyn gan Gyngor Sir Powys; mae ôl-groniad o thua 170 o orchymynion llwybrau cyhoeddus [tystiolaeth gan Gyngor Sir Powys] <p>Creodd rhaglen Llwybr Arfordir Cymru 85 km o hawliau tramwy cyhoeddus newydd rhwng 2007 a 2014.</p> <p>Byddai'r ffactorau canlynol yn cael effaith ar y graddau y byddent yn cael eu gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynion y broses • Yr hawl i wneud cais am hawliau uwch • Adnoddau: lefelau staff yr awdurdodau priffyrdd lleol, a chyllideb ariannol ychwanegol [disgwylir y byddai iawndal yn daladwy] • Nifer y gwrthwynebiadau ac apeliadau y byddai'n ofynnol
Ansawdd mynediad	Hygyrchedd i ddefnyddwyr o safbwynt: <ul style="list-style-type: none"> - cyflwr ffisegol 	Hygyrchedd ffisegol <p>Byddai'n ymestyn y llwybrau, a'r rhwydweithiau â hawliau cyhoeddus a fyddai ar gael ar gyfer beicwyr a marchogwyr ceffylau.</p>	I ddechrau, byddai'r safon yn unol ag addasrwydd y rhwydwaith llwybrau troed presennol ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch (gweler y gwerthusiad a'r amcangyfrifon ar gyfer Opsiwn 2A(ii)).	Yn amodol ar gymhwyso pwerau, a'r gwaith cynllunio cysylltiedig, er mwyn cydgyssylltu'r hawliau uwch sydd eisoes yn bodoli.

Teitlau'r cynigion amlinellol:	Disgrifiad o'r meini prawf a mesurau	Opsiw 2A(i): Cymhwysio hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol [dull adran 30]	Opsiw 2A(ii): Hawliau uwch wedi'u cymhwysio i lwybrau troed gyda phwerau i wahardd ar sail anaddasrwydd	Opsiw 2A(iii): Cymhwysio hawliau uwch i lwybrau troed fesul achos ac ar sail ddetholedig
	<ul style="list-style-type: none"> - defnyddioldeb [ymarferoldeb y mynediad a ddarparwyd gan y diwygiadau i hawliau] - argaeledd i ddefnyddwyr gwahanol - agosrwydd i'r boblogaeth [hefyd yn fater cydraddoldeb] - presenoldeb rhwystrau i ddefnyddwyr hawliau uwch a phobl â phroblemau symudedd - argaeledd gwybodaeth, gan gynnwys arwyddion ar y safle ar gyfer yr hawl dramwy gyhoeddus, neu oddi ar y safle - cysylltiad â mynediad cyhoeddus arall â hawliau tebyg 	<p>Dengys amcangyfrif dangosol y byddai 41% o'r 26,320 km o'r rhwydwaith llwybrau troed yn rhydd rhag rhwystrau ar gyfer beicwyr a marchogwyr ceffylau [yn ôl amcangyfrifon astudiaeth o yrru mecanyddol oddi ar y ffordd a gefnogwyd gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru] = tua 10,790 km = tua 32.5% o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Byddai cynnydd sylweddol yn nosbarthiad, a chysylltedd hawliau uwch. Fodd bynnag, nid yw hwn wedi'i feintio, a bydd yn ddibynnol ar ffactorau lleol (er enghraifft, ceir llai o nodweddion terfyn mewn ardaloedd ucheldirol).</p> <p>Mae ffactorau nodedig eraill yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd rhwystrau ar lwybrau troed [= 13 fesul 10 km nad oes modd eu defnyddio, ar gyfartaledd yng Nghymru yn 2002], y mae ffensys/muriau/gwrchoedd yn gyfrifol am [= 6.6 / 10 km: cyf. = Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy Cymru 2002], yn cael effaith gymharol fwy ar farchogwyr ceffylau, ac effaith gymharol lai ar feicwyr – gallai arwain at gynnydd yn y galw ar awdurdodau priffyrdd lleol i orfodi <p>Adroddodd Cod Cefn Gwlad Powys fod ei ffigurau Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau diwethaf (2015) wedi amcangyfrif bod 38% o'r rhwydwaith yn 'agored ac ar gael'. Amcangyfrifodd ffigurau cyfystyr Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy Cymru 2002 ar gyfer Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau Powys fod tua 28% yn 'hwylus' (Cymru = 40%).</p> <p>Mae ffactorau eraill sy'n cael effaith ar ddefnydd yn cynnwys y canlynol: nid yw'n hysbys beth yw uchder rhwystrau, ble ceir wynebau llwybrau sy'n addas ar gyfer marchogaeth ceffylau, a'r graddau y defnyddir llwybrau troed ar gyfer beicio.</p> <p>Yn rhydd rhag rhwystrau: Amcangyfrifodd Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy Cymru 2002 fod 1,007 km ag wyneb caled ac yn rhydd rhag camfeydd a rhwystrau.</p> <p>Bydd y dosbarthiad o'i gymharu â'r boblogaeth yn seiliedig ar y llwybrau cyhoeddus presennol, a byddai'n cynnwys llwybrau trefol, cyrion trefol, a gwledig, ond ni châi ei feintio gan ddadansoddiad Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol.</p> <p>Mae agweddau eraill ar ddefnyddioldeb yn cynnwys arwyddion. Lle byddai pobl yn deall mater yr hawliau newydd, byddai hynny'n gyfystyr â'r sefyllfa o safbwynt llwybrau troed yn gyffredinol.</p> <p>Yng ngwaith ymchwil 2002, cofnodwyd bod yr amcangyfrifon ar gyfer cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd statudol o safbwynt arwyddion o ffyrdd metlin yn 42%, ac adroddwyd Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau o 50%.</p> <p>Yn 2000/01, amcangyfrifwyd mai'r Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer hwylustod ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus oedd 55%. Mewn perthynas â defnyddwyr hawliau uwch ar lwybrau troed, byddai hwn yn gymharol waeth o'i gymharu â chyflwr cyffredinol y llwybrau cyhoeddus ar gyfer cerddwyr.</p>	<p>Mae'r gwahaniaethau allweddol yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai datgymhwysio hawliau'n darparu rhwydwaith cymharol well o lwybrau sydd ar gael (o safbwynt defnyddioldeb) o'i gymharu â'r rhwydwaith llwybrau troed yn ei gyfanrwydd, ond byddai'n darparu nifer gymharol lai o ardaloedd cysylltiedig, a llwybrau sydd ar gael, o'i gymharu ag Opsiw 2A(i). <p>Yn yr un modd ag Opsiw 2A(i), caiff safon y llwybrau sydd ar gael ei chyfyngu gan gyflwr presennol y rhwydwaith llwybrau troed, a chan gyfyngiadau cyfreithlon ac anghyfreithlon cysylltiedig ar lwybrau troed. Eid i'r afael â'r pwynt olaf, i raddau, drwy gynnal asesiadau o anaddasrwydd (e.e. ar gyfer yr achosion hynny â rhwystrau naturiol ac artiffisial na ellir mo'u haddasu'n rhydd), gan arwain at naill ai weithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau, neu ddatgymhwysio hawliau drwy gynnal asesiad o anaddasrwydd.</p> <p>Byddai adnoddau a phwerau ar gyfer gwella'r hawliau sydd ar gael yn cael effaith ar y safon a chysylltedd y rhwydwaith a fyddai'n deillio o ganlyniad (e.e. gwella adeileddau cyfreithlon ar gyfer hawliau uwch, a chamau gorfodi yn erbyn adeileddau anghyfreithlon, ac yn arwain at asesu bod nifer llai ohonynt yn anaddas).</p> <p>Byddai datgymhwysio hawliau'n cael effaith ar integreidd y rhwydwaith hawliau – ystyriaeth o bosib ar gyfer asesu llwybrau unigol.</p> <p>Efallai y bydd yn bosibl amcangyfrif graddau a dosbarthiad llwybrau troed nad ydynt yn addas o bosib, ac felly ystyried yr effaith ar y rhwydwaith a ddarperir o ganlyniad – er enghraifft, ei ehangder a'i safon drwy ystyried data ymchwil LUC (gweler y cyfeiriad uchod), gan gasglu data ynghyd ar gyfer meini prawf o'r graddau y mae lleoliad yn agored i niwed, fel llechwedd, y math o bridd, a glawiad, ac i ddarparu lefel ddangosol o anaddasrwydd ar lefel rhwydwaith a/neu fel rhan o waith datblygu'r broses asesu anaddasrwydd. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill fel lled, iechyd a diogelwch, a ffactorau sy'n ymwneud â chadwraeth natur, hefyd yn feini prawf bosibl y dylid eu cynnwys yn yr asesiadau angenrheidiol.</p> <p>Byddai angen i'r broses ddiwygio ystyried sut y byddai trefniadau anaddasrwydd o'r fath, neu'r prosesau gwahardd a chyfyngu a geir o ganlyniad, neu ddatgymhwysio hawliau, yn cael effaith ar y dosbarthiadau o ddefnyddwyr.</p>	<p>Bydd y materion sy'n dylanwadu ar yr effaith yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diwygio deddfwriaeth (e.e. dyletswydd neu bŵer) • P'un a fydd y dull yn ei wneud yn ofynnol talu iawndal i dirfeddianwyr • Graddau'r gweithredu gan awdurdodau priffyrdd lleol • Argaeledd adnoddau er mwyn cymhwysio deddfwriaeth - Byddai'r cysylltiadau â hawliau uwch eraill sydd ar gael yn llawer mwy cyfyngedig • Adnoddau ar gyfer gwella'r mynediad a grëid <p>Lle'i cymhwyswyd, byddai Opsiw 2A(iii) yn arwain at gyfran uchel o lwybrau addas o safon (o'i gymharu â'r opsiynau eraill – er y byddai'r graddau y câi ei gymhwysio yn gyfyngedig iawn).</p> <p>Mae'r asesiad a amlinellir yn Opsiw 2A(i) yn darparu amcangyfrif pen uchaf bosibl sy'n cynnwys y llwybrau troed sydd eisoes yn rhydd rhag rhwystrau (1,007 km), a'r llwybrau troed a fyddai'n rhydd rhag rhwystrau pe câi ei gymhwysio i bob llwybr bosibl. Ond os yw hyn yn darparu rhwydweithiau o lwybrau cydlynol a defnyddiol, nid yw'n bosibl ei amcangyfrif.</p> <p>Gweler y cyfeiriad at waith ymchwil LUC: gallai gwaith datblygu meini prawf anaddasrwydd, a meini prawf addasrwydd felly, a gwaith datblygu'r fethodoleg, lywio'r gwaith o bennu rhwydweithiau addas tebygol, i raddau.</p> <p>Gallai cyfyngiadau bosibl ddeillio o'r gofyniad adnoddau i weithredu'r newidiadau ac i dalu iawndal.</p>
Dyfodol parhaol	Mynediad 'drwy hawl' am byth, neu drwy ganiatâd? Sefyllfa ar gyfer defnyddwyr yn	Mynediad drwy hawl am byth: wedi'i gymhwysio ar gyfer marchogaeth ceffylau a beicio	Mynediad drwy hawl am byth.	Ar y llwybrau hynny y cymhwysir hawliau iddynt, câi'r newid ei wneud am byth.

Teitlau'r cynigion amlinellol:	Disgrifiad o'r meini prawf a mesurau	Opsiw 2A(i): Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol [dull adran 30]	Opsiw 2A(ii): Hawliau uwch wedi'u cymhwyso i lwybrau troed gyda phwerau i wahardd ar sail anaddasrwydd	Opsiw 2A(iii): Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed fesul achos ac ar sail ddetholedig
	<p>arfer hawliau gwahanol?</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y sefyllfa absoliwt a'r sefyllfa o'i chymharu ag opsiynau eraill [gweler yr adrannau ar ehangder a safon uchod] - Yn amodol i raddau sylweddol 	<p>Câi ychydig o gyfyngiadau ar hawliau eu cymhwyso ar lefel leol – byddent yn cael eu cymhwyso i hawliau uwch yn bennaf. (Yn debygol mai swm lleiafrifol o ganran y rhwydwaith y câi'r hawliau eu cymhwyso iddo – ond byddai'r effaith wirioneddol yn ddibynol ar nifer o ffactorau.)</p> <p>Bydd natur yr ystyriaethau a gyflwynir o safbwynt dargyfeirio, cau, neu gyfyngiadau ar gyfer Diwygiad 2B yn cael effaith ar hyn.</p>	<p>Byddai hawliau ychwanegol ar gyfer cyfran (dim amcangyfrif) o lwybrau troed yn cael eu datgymhwyso, neu ceid cyfyngiadau arnynt.</p> <p>Byddai'r graddau y câi'r pwerau i ddatgymhwyso hawliau drwy feini prawf anaddasrwydd yn cael effaith ar barhauster gwirioneddol hawliau a'r canfyddiad ohono. Bydd yr effaith yn ddibynol ar nifer o ffactorau (e.e. gweler y pwyntiau uchod mewn perthynas â safon y mynediad).</p> <p>Gallai'r gwaharddiadau a chyfyngiadau a gymhwysir gyfyngu ar hawliau lle byddent yn cael eu cymhwyso naill ai dros dro neu yn barhaol. Heb ei feintioli, ond yn ddangosol, mae'n debyg y byddai hyn yn digwydd ar leiafrif bach o'r rhwydwaith – byddai'r effaith wirioneddol yn ddibynol ar nifer o ffactorau.</p>	<p>Byddai proses adolygu'n darparu ar gyfer gwneud newidiadau pellach.</p> <p>Byddai'r defnydd a wnaed o'r pwerau, a chyfathrebu ble y byddent wedi'u cymhwyso, yn llywio'r canfyddiad o barhauster.</p>
Eglurder a sicrwydd	<p>Eglurder o safbwynt hawliau:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Yn syml neu'n gymhleth eu deall - Yr hyn y gellir ei wneud ac na ellir ei wneud, ym mha le a phryd, ac o ran yr holl fuddiannau, yn ddealladwy - Os bydd yr opsiwn yn destun newid a sut (dros dro neu barhaol, e.e. gwaharddiad au a chyfyngiadau) - Y graddau y bydd modd cyfathrebu gwybodaeth fynediad berthnasol. 	<p>Caent eu cymhwyso yn gyffredinol. Yn hawdd eu deall. Byddai eglurder a sicrwydd, o safbwynt cyfreithiol, yn uchel iawn – yn amodol ar fanwl gywirdeb mapiau a datganiadau diffiniol.</p> <p>Mae angen egluro statws yr hawliau tramwy cyhoeddus a ddarperir o ganlyniad mewn perthynas â chadw llwybrau troed cyhoeddus nad ydynt â hawliau uwch.</p> <p>Byddai angen sicrhau y câi gwybodaeth ei darparu i bawb â buddiannau er mwyn sicrhau bod trefniadau'n eglur a sicr mewn gwirionedd.</p> <p>Sicrwydd ymarferol o'u defnydd: byddai rhwystrau (er enghraifft, camfeydd) ond yn amlwg yn y wybodaeth [ar-lein ac ar lawr gwlad (arwyddion)] y câi ei darparu i ddefnyddwyr.</p> <p>Mae gwybodaeth ddigidol am adeileddau wedi'i chofnodi'n eang, ond adnoddau cyfyngedig iawn a geir ar-lein (ymchwil gan LUC ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, 2020).</p> <p>Byddai hawliau a chyfrifoldebau ond yn cael eu hamlygu drwy ymgyrch wybodaeth a thrwy ddarparu gwybodaeth gysylltiedig ar lawr gwlad.</p> <p>Bydd sicrhau eglurder a sicrwydd mewn perthynas â chyfyngiadau cyfreithiol yn her.</p> <p>Eglurder o ran sicrhau bod modd i'r cyhoedd ddeall manylion mynediad a ble maent yn gymwys.</p>	<p>Yn eglur ac yn sicr o safbwynt cyfreithiol.</p> <p>Angen egluro statws yr hawliau tramwy cyhoeddus a ddarperir o ganlyniad – mewn perthynas â'r llwybrau cyhoeddus a gedwir nad ydynt â hawliau uwch.</p> <p>Byddai rhwystrau (er enghraifft, camfeydd) ond yn amlwg yn y wybodaeth y câi ei darparu i ddefnyddwyr – gweler Diwygiad 3A. Byddai hawliau a chyfrifoldebau ond yn cael eu hamlygu drwy ymgyrch wybodaeth a thrwy ddarparu gwybodaeth gysylltiedig ar lawr gwlad – mae Opsiw 2A(ii) (yr opsiwn hwn) yn ystyried yr agwedd hon.</p> <p>Byddai angen sicrhau y ceir dealltwriaeth glir o'r dull gwahaniaethol o gymhwyso hawliau i lwybrau troed, o ran p'un a ydynt â hawliau uwch ynteu beidio, a'i chyfathrebu ar lawr gwlad, e.e. dosbarth hawl dramwy gyhoeddus newydd, arwyddion a gwybodaeth a gyhoeddir (e.e. ar-lein, mapiau wedi'u hargraffu, a gwaharddiadau a chyfyngiadau).</p>	<p>Byddai'r opsiwn yn eglur o safbwynt yr hawliau y câi eu creu lle aseswyd bod llwybr yn addas.</p> <p>Mae angen egluro statws yr hawliau tramwy cyhoeddus a ddarperir o ganlyniad mewn perthynas â chadw llwybrau troed cyhoeddus nad ydynt â hawliau uwch.</p> <p>Byddai eglurder felly'n amodol ar bennu a fyddai'r opsiwn yn creu dosbarth hawl dramwy gyhoeddus newydd, neu a fyddai'r broses yn arwain at aildosbarthu llwybrau penodol i statws llwybr ceffylau.</p> <p>Byddai hawliau diffiniol yn glir ac yn sicr. Ni fyddai gwahaniaeth clir rhwng y broses a phwerau adran 25 / adran 26.</p> <p>Byddai angen sicrhau y ceir dealltwriaeth glir o'r dull gwahaniaethol o gymhwyso hawliau i lwybrau troed, o ran p'un a ydynt â hawliau uwch ynteu beidio, a'i chyfathrebu ar lawr gwlad, e.e. dosbarth hawl dramwy gyhoeddus newydd, arwyddion a gwybodaeth a gyhoeddir (e.e. ar-lein, mapiau wedi'u hargraffu, gwaharddiadau a chyfyngiadau).</p>
Cost	<p>Costau wedi'u hamcangyfrif ar gyfer cynnig ar gyfer sectorau gwahanol: amcangyfrifon gwirioneddol, dangosol neu gymharol. Ystyried costau gweinyddu a gweithredu, a chostau parhaus, o safbwynt y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ariannol - Adnoddau - O'u cymharu â'r sefyllfa bresennol - O'u cymharu â chynigion eraill 	<p>Byddai'r costau o weithredu'n amodol ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y broses ddeddfwriaethol ar gyfer Llywodraeth Cymru • Costau gweinyddol uniongyrchol bach iawn ynghlwm wrth waith cymhwyso hawliau gan yr awdurdodau priffyrdd lleol • Costau gweinyddol mewn perthynas â gwneud newidiadau i fapiau diffiniol [£3,534.00] • Arwyddion – gellid dilyn dull newydd o bosib • Y galw am waith cynnal a chadw llwybrau • Effeithiau ar reoli tir • Cydymffurfiaeth a gorfodi • Awgrym y ceid gostyngiad yn y ceisiadau am orchmynion addasu mapiau diffiniol; cynnydd mewn gorchmynion llwybr cyhoeddus ac ati • Cyfathrebu hawliau newydd, gan gynnwys gwybodaeth ac arweiniad 	<p>Meysydd costau i'w hystyried, gyda'r cynnydd mewn costau gweinyddol sydd ynghlwm wrth ddatgymhwyso hawliau.</p> <p>Costau amcangyfrifedig i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai'r gwaith o asesu pob llwybr troed diffiniedig yn dasg sylweddol (yn gofyn am arolygu 26,000 km), y byddai'n cymryd 12 'blynedd unigolyn' i'w chwblhau ar gyfradd o 10 km y dydd • Byddai costau gweinydiaeth yn debygol o fod yn uwch, er enghraifft: • Amcangyfrifir bod y gallu i gyflwyno yn gyfystyr â chyflawni 268 o orchmynion llwybr cyhoeddus ar draws awdurdodau lleol Cymru [DLW, ymchwil 2002]. Bach iawn o dystiolaeth fod y gallu wedi cynyddu'n sylweddol • Cost ddangosol gyfartalog ar gyfer cwblhau gorchymyn addasu mapiau diffiniol yn ddiwrthwynebiad = £2,720; £5,500 drwy wrandawriad / sylwadau ysgrifenedig; hyd at 	<p>Meysydd costau i'w hystyried [ar gyfer Aseiad Effaith Rheoleiddiol neu debyg]:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau, a'i chyfathrebu; camau gorfodi o ganlyniad [cymharol llai]; diwygio'r prosesau cyfreithiol a gweinyddol sy'n cyd-fynd â'r newidiadau [cymharol lai]; newidiadau i'r arwyddion ar lawr gwlad [cymharol lai]; newidiadau i wybodaeth arall a ddarperir am hawliau tramwy cyhoeddus; galw am newidiadau i seilwaith [ei uwchraddio a/neu ei gynnal a'i gadw] – cymharol lai; effeithiau ar hawliau preifat ac ar reoli tir <p>Byddai angen ystyriaeth bellach ynghylch p'un a fyddai dull detholus yn ei gwneud yn ofynnol talu iawndal yn sgil cymhwyso hawliau uwch a gwneud yn iawn am y costau cysylltiedig â'r gofynion o fewn y ddeddfwriaeth.</p>

Teitlau'r cynigion amlinellol:	Disgrifiad o'r meini prawf a mesurau	Opsiw 2A(i): Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol [dull adran 30]	Opsiw 2A(ii): Hawliau uwch wedi'u cymhwyso i lwybrau troed gyda phwerau i wahardd ar sail anaddasrwydd	Opsiw 2A(iii): Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed fesul achos ac ar sail ddetholedig
		<p>Meysydd costau i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnydd yn yr angen am wybodaeth a chyfathrebu o safbwynt hawliau a chyfrifoldebau Newid posibl yn y galw am gymryd camau gorfodi o ganlyniad Diwygio'r prosesau cyfreithiol a gweinyddol sy'n cyd-fynd â'r newidiadau Newidiadau posibl i'r arwyddion ar lawr gwlad; newidiadau i wybodaeth arall a ddarperir am hawliau tramwy cyhoeddus; cynnydd yn y galw am newidiadau i seilwaith [ei uwchraddio a/neu ei gynnal a'i gadw]; effeithiau ar hawliau preifat ac ar reoli tir; cynnydd yn y galw am orchymnion rheoleiddio traffig ar gyfer materion rheoli tir penodol 	<p>£10,190 os cynhelir ymchwiliad cyhoeddus [ffynhonnell: ymchwil DLW yn 2002, ar ôl ychwanegu'r cynnydd mewn chwyddiant]</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddai costau sylweddol ynghlwm wrth y ddyletswydd i asesu llwybrau troed Gwybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau, a'i chyfathrebu; y camau gorfodi o ganlyniad i'r newidiadau; diwygio'r prosesau cyfreithiol a gweinyddol sy'n cyd-fynd â'r newidiadau; newidiadau i'r arwyddion ar lawr gwlad; newidiadau i wybodaeth arall a ddarperir am hawliau tramwy cyhoeddus; galw am newidiadau i seilwaith [ei uwchraddio neu ei gynnal a'i gadw]; ac effeithiau ar hawliau preifat ac ar reoli tir 	
Monitro a gorfodi	<p>Hawliau a chyfrifoldebau gorfodi, o safbwynt y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Y gallu i orfodi Galw/angen am gamau gorfodi Yr effaith debygol ar gydymffurfiaeth â hawliau a chyfrifoldebau Y gallu i fonitro'r opsiwn a'r broses o'i weithredu 	<p>Nid oes unrhyw dystiolaeth glir i ddangos a fyddai cynnydd neu ostyngiad yn y galw i gymryd camau gorfodi, na thystiolaeth wrthrychol o raddfa'r galw.</p> <p>Ceir arwyddion y byddai cynnydd yn y galw am waith monitro/gorfodi gan ddefnyddwyr a rheolwyr tir i ddechrau, gan ystyried cyflwr y rhwydwaith a'r effeithiau y cymerir y byddant yn deillio o'r defnydd newydd.</p> <p>Byddai materion ynghylch diffyg ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hawliau yn amodol ar gyfathrebu.</p> <p>Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy Cymru 2002: yn awgrymu y gallai arwain at fwy o alw am ymdrin â rhwystrau anghyfreithlon, o gymharu â sefyllfa cerddwyr, a all fynd heibio iddynt yn rhwyddach, ac nad ydynt felly'n gweld yr angen i adrodd yn eu cylch [gweler y wybodaeth ddangosol yn Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy Cymru 2002 mewn perthynas â'r uchod ynghylch rhwystrau, arwyddion ac ati].</p> <p>Byddai eglurder yr arwyddion a'r wybodaeth a ddarperir yn cael effaith ar gydymffurfiaeth a'r galw am orfodi.</p> <p>Monitro darpariaethau: ni fyddai'n ofynnol monitro unrhyw beth a nodir yn yr opsiwn hwn, o ran gwaith yr awdurdodau lleol, cyflwr y rhwydwaith, yr effaith ar reoli tir, cydymffurfiaeth gwaith rheoli tir â chyfrifoldebau, nac ymddygiad defnyddwyr.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o'r materion hyn yn gymwys ar draws pob un o'r opsiynau, ond i raddau gwahanol.</p>	<p>Mae'r dystiolaeth yn cynnwys yr hyn a nodwyd ar gyfer Opsiw 2A(i) mewn perthynas â'r galw posibl.</p> <p>Gan y gallai hawliau newydd fod yn amodol ar broses ddatgymhwyso systematig ag iddi brosesau ymgynghorol a gweithredu, efallai y câi hyn effaith ar y camau gorfodi a fyddai'n ofynnol, ond mae'n anodd rhagweld sut yn union.</p> <p>Posiblirwydd y gellid newid y galw am gyfyngiadau dros dro neu barhaol, ond nid oes tystiolaeth.</p> <p>Byddai eglurder yr arwyddion a'r wybodaeth a ddarperir yn cael effaith ar gydymffurfiaeth a'r galw am orfodi.</p> <p>Byddai gwaith monitro yn gofyn am gymryd camau penodol – nid yw'r opsiwn hwn yn darparu ar ei gyfer.</p>	<p>Byddai graddau'r hawliau newydd yn sylweddol lai ac yn amodol ar brosesau ymgynghorol a phroses asesu addasrwydd. Gan hynny, disgwylir y byddai angen cymryd llai o gamau gorfodi.</p> <p>Byddai eglurder yr arwyddion a'r wybodaeth a ddarperir yn cael effaith ar gydymffurfiaeth a'r galw am orfodi.</p> <p>Byddai gwaith monitro yn gofyn am gymryd camau penodol – nid yw'r opsiwn hwn yn darparu ar ei gyfer.</p>
Mynediad cyfartal	<p>Effaith gadarnhaol neu negyddol ar fynediad cyfartal.</p> <p>Ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Y boblogaeth yn gyffredinol Pobl â nodweddion gwarchoddedig Yn benodol, ar gyfer y bobl hynny â phroblemau symudedd; anghydraddo ldebydd cymdeithasol Effeithiau gwahanol: ar dirfeddianwyr Effeithiau gwahanol: ar ddosbarthiad 	<p>Câi'r hawliau drwy hawl eu cymhwyso'n gyffredinol ar draws Cymru gyfan.</p> <p>Amcangyfrifodd Arolwg Aelwydydd Cenedlaethol Cymru 2016-17 fod oedolion yng Nghymru yn cymryd rhan yn y gweithgareddau isod fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> 9.1% yn beicio oddi ar y ffordd 3.0% yn marchogaeth ceffylau 71.4% yn cerdded Nodwyd hefyd yn Arolwg Aelwydydd Cenedlaethol Cymru y rhagwelir lefel sylweddol o 'alw yn y dyfodol' o ran beicio oddi ar y ffordd <p>Ni cheid effaith wahaniaethol o safbwynt rheolwyr tir gan y câi ei gymhwyso i'r holl dir â llwybrau troed.</p> <p>Byddai'r opsiwn yn darparu mwy o bwerau ar gyfer gwneud gwelliannau hygyrchedd er budd pobl yn arfer hawliau uwch, a phobl â phroblemau symudedd, er enghraifft.</p>	<p>Câi'r hawliau drwy hawl eu cymhwyso'n gyffredinol ar draws Cymru gyfan.</p> <p>Er budd i feicwyr a marchogwyr ceffylau yng Nghymru [gweler y ffigurau ar gyfer Opsiw 2A(i) ar gyfer oedolion yng Nghymru].</p> <p>Byddai'r opsiwn yn darparu mwy o bwerau ar gyfer gwneud gwelliannau hygyrchedd er budd pobl yn arfer hawliau uwch, a phobl â phroblemau symudedd – er nad oes modd rhagweld hyn, a byddai'r effaith yn dibynnu ar raddau'r defnydd a wnaed.</p> <p>Posiblirwydd y ceid gostyngiad mewn hygyrchedd ar gyfer cerddwyr a fyddai'n rhannu llwybrau troed, boed hynny'n ganfyddiad neu'n wirioneddol.</p> <p>Byddai datgymhwyso hawliau ar sail 'anaddasrwydd' yn lleihau effeithiau'r newidiadau ar gerddwyr mewn rhai lleoliadau.</p>	<p>Byddai 'rhywfaint' o gynnydd yn y mynediad sydd ar gael i gyfran o'r bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau fel beicio a marchogaeth ceffylau yng Nghymru [e.e. gweler ffigurau'r bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ar gyfer Opsiw 2A(i)], ac i ymwelwyr â Chymru sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.</p> <p>Byddai dosbarthiad yr hawliau newydd yn amodol ar ddefnyddio a chymhwyso pwerau (mae'r graddau y gwneid hynny'n anodd eu rhagweld), gan gynnwys yr ystyriaethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Os a sut y câi pwerau eu defnyddio i wella hygyrchedd er budd y bobl hynny â phroblemau symudedd (er enghraifft) a defnyddwyr hawliau uwch (er bod rhywfaint o bwerau eisoes yn bodoli) Câi graddau'r pwerau eu cyfyngu gan gyfyngiadau adnoddau, ac felly byddent yn cael eu cymhwyso ar

Teitlau'r cynigion amlinellol:	Disgrifiad o'r meini prawf a mesurau	Opsw'n 2A(i): Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol [dull adran 30]	Opsw'n 2A(ii): Hawliau uwch wedi'u cymhwyso i lwybrau troed gyda phwerau i wahardd ar sail anaddasrwydd	Opsw'n 2A(iii): Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed fesul achos ac ar sail ddetholedig
	<p>au o ddefnyddwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> - Graddfa/ehangder effeithiau ar yr uchod 	<p>Posibilrwydd y ceid gostyngiad mewn hygyrchedd ar gyfer cerddwyr a fyddai'n rhannu llwybrau troed â defnyddwyr hawliau uwch, boed hynny'n effaith a ganfyddir neu effaith wirioneddol.</p> <p>Câi effaith ar bob tîrfeddiannwr a rheolwr tir â llwybr cyhoeddus ar ei dir.</p>	<p>Câi effaith ar bob tîrfeddiannwr a rheolwr tir â llwybr cyhoeddus ar ei dir.</p>	<p>raddfa lai nag yn Opsw'n 2A(i) ac Opsw'n 2A(ii)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caiff ceisiadau, gwrthwynebiad neu gefnogaeth gan y cyhoedd a thîrfeddiannwyr effaith ar y graddau y defnyddir pŵer • Dull gweithredu awdurdodau priffyrdd lleol o ran defnyddio darpariaethau • Gallai'r effaith ar reolwyr tir amrywio yn ôl ble a sut y byddent yn cael eu cymhwyso gan awdurdodau priffyrdd lleol unigol
<p>Mwy o effeithlonrwydd a thryloywder</p>	<p>Gofynion proses gwell a/neu ostyngol i randdeiliaid; cymryd llai o amser, gan gynnwys ar gyfer prosesau gweinyddol [gweler costau hefyd]; gwell mynediad at brosesau gan randdeiliaid.</p>	<p>Byddai rhywfaint o gynnydd yn y beichiau, er bod y dystiolaeth wrthrychol yn wan. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod lefelau sylweddol o faterion sy'n ymwneud â'r gyfraith, cynnal a chadw, a gorfodi nad ydynt wedi'u datrys (e.e. Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Fynwy).</p> <p>Yn syml i ddechrau o safbwynt cymhwyso hawliau i'r rhwydwaith yn statudol – proses eglur a thryloyw ar lefel strategol.</p> <p>Byddai ymwybyddiaeth y cyhoedd a rhanddeiliaid ar lefel lleol yng Nghymru yn dibynnu ar y wybodaeth a'r arweiniad a ddarperid.</p> <p>Mae'n debygol y ceid mwy o alwadau ar awdurdodau priffyrdd lleol gan wahanol fuddiannau o ganlyniad, ond nid oes modd darogan graddfa hynny.</p> <p>Ceid cynnydd yn y gofynion i weinyddu a gorfodi cod mynediad statudol ar gyfer amrediad o randdeiliaid.</p> <p>Ni cheid mecanwaith ar gyfer apelio yn erbyn gweithredu'r hawliau.</p> <p>Ceid effaith ar y mecanweithiau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw, gorfodi a rheoli mynediad.</p> <p>Amcangyfrifodd waith ymchwil Llywodraeth Cymru yn 2017 ei bod yn costio £1,817 i gwblhau pob gorchymyn rheoleiddio traffig, ac mae'r rhan fwyaf o awdurdodau priffyrdd lleol yn cyflwyno tua thri gorchymyn rheoleiddio traffig y flwyddyn, ar gyfartaledd.</p> <p>Ceid rywfaint o gynnydd yn y baich o safbwynt prosesau gweinyddol sydd eisoes yn bodoli o ganlyniad i'r newidiadau.</p> <p>O safbwynt y camau gorfodi a gymerwyd eisoes, ar gyfartaledd, a nodwyd yng ngwaith ymchwil 2017 Llywodraeth Cymru (gweler y golofn dde):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gallai leihau'r galw am orchmynion addasu mapiau gan ddefnyddwyr hamdden a'r cyhoedd ynghylch statws llwybrau [mae gwaith ymchwil Llywodraeth Cymru ar hawliau tramwy cyhoeddus yn 2017 yn dangos y caiff 4.5 gorchymyn addasu mapiau'r flwyddyn eu cwblhau fesul awdurdod priffyrdd lleol, ar gyfartaledd; y gost gyfartalog o gwblhau gorchymyn addasu mapiau yn ddiwrthwynebiad = £4,660] • Gallai arwain at gynnydd yn y ceisiadau am orchmynion llwybr cyhoeddus gan dirfeddiannwyr [gweler ymchwil 2017 Llywodraeth Cymru am y ffigurau cyfredol a broseswyd] • Gallai arwain at gynnydd mewn ymholiadau, a cheisiadau am gynnwys gwybodaeth am gyfyngiadau ar lwybrau troed cyhoeddus mewn datganiadau, ac yna camau gorfodi ynghylch cyfyngiadau nas cymeradwywyd – 	<p>Ceid cynnydd yn y beichiau, ond mae'r dystiolaeth wrthrychol yn wan. Yn gyffredinol, awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymatebion y ceid effeithiau o ganlyniad, megis y rhai canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Effeithiau ar faich y prosesau gweinyddol sydd eisoes yn bodoli. Byddai hyn yn cyflwyno gofyniad newydd i awdurdodau priffyrdd lleol asesu addasrwydd llwybrau troed o safbwynt hawliau uwch • Gallai leihau'r galw am orchmynion addasu mapiau gan ddefnyddwyr hamdden a'r cyhoedd ynghylch statws llwybrau, a gallai arwain at gynnydd yn y ceisiadau am orchmynion llwybr cyhoeddus gan dirfeddiannwyr ar gyfer dargyfeirio llwybrau troed • Gallai arwain at gynnydd mewn ymholiadau, a cheisiadau am gynnwys gwybodaeth am gyfyngiadau ar lwybrau troed cyhoeddus mewn datganiadau, a chamau gorfodi ynghylch cyfyngiadau nas cymeradwywyd • Ceid cynnydd tebygol mewn ceisiadau am welliannau i fynediad ac am waith cynnal a chadw ar lwybrau. Yn syml i ddechrau o safbwynt cymhwyso hawliau i'r rhwydwaith; proses eglur a thryloyw ar lefel strategol; byddai ymwybyddiaeth y cyhoedd a rhanddeiliaid o newidiadau ar lefel genedlaethol Cymru, ac ar lefel lleol, yn dibynnu ar y wybodaeth a'r arweiniad a ddarperid. • Mae'n debygol y ceid mwy o alwadau ar awdurdodau priffyrdd lleol gan wahanol fuddiannau o ganlyniad, ond mae'n anodd darogan graddfa hynny. Mae lefelau cyfredol canlynol y mathau o gamau gorfodi a geir ar hyn o bryd, wedi'u mynegi fesul awdurdod priffyrdd lleol fesul blwyddyn, ar gyfartaledd, yn seiliedig ar ddata ymchwil 2017 Llywodraeth Cymru: <ul style="list-style-type: none"> • Hysbysiadau = 3.9 • Erlyniadau = 0.10 • Cysylltiadau = 18.9 • Camau uniongyrchol = 2.6 • Cyngor anffurfiol = 11.4 • Pob math = 36.9 • Mae'n anodd darogan lefel y baich a fyddai'n deillio o gynnal asesiadau o addasrwydd 	<p>Yn amodol ar ddefnyddio a chymhwyso'r pwerau a ddarperid. Yn anodd meintoli'r raddfa y câi'r pwerau eu defnyddio, a'r effeithiau ar effeithlonrwydd a thryloywder o ganlyniad.</p> <p>Byddai argaeledd adnoddau, a'r dulliau a ddilynid gan awdurdodau priffyrdd lleol, yn debygol o gael effaith sylweddol ar weithredu'r newidiadau.</p> <p>Gweler hefyd yr ystyriaethau ar gyfer Opsw'n 2A(ii) – yn enwedig pwyntiau bwled 1, 4, 5 a 6.</p>

Teitlau'r cynigion amlinellol:	Disgrifiad o'r meini prawf a mesurau	Opsw'n 2A(i): Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol [dull adran 30]	Opsw'n 2A(ii): Hawliau uwch wedi'u cymhwyso i lwybrau troed gyda phwerau i wahardd ar sail anaddasrwydd	Opsw'n 2A(iii): Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed fesul achos ac ar sail ddetholedig
		<p>hefyd ynghylch awdurdodiadau adran 147 o bosib [gweler ymchwil 2017 Llywodraeth Cymru]</p> <p>Ceid cynnydd tebygol mewn ceisiadau am welliannau i fynediad ac am waith cynnal a chadw ar lwybrau – byddai angen ymchwil bellach i bennu'r ffigurau cyffredol.</p>		
Ecosystemau a gwytnwch ecosystemau	<p>Effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral. Os yw tystiolaeth yn caniatáu, mae ffactorau i'w hystyried o safbwynt yr effeithiau ar rywogaethau a chynefinoedd yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ehangder: byddai newid i hawliau ardal/hyd yn berthnasol a cheir effeithiau [gan gynnwys graddfa'r safleoedd a rhywogaethau gwarchoddedig a fyddai'n cael eu heffeithio?] - Newid i lefelau a'r math o effeithiau neu eu cymeriad - Newid i ddosbarthiad effeithiau [eang; ardaloedd penodol?] - Gwytnwch i effeithiau [cynefinoedd/rhywogaethau] - Darpariaeth yn ddigonol i atal neu liniaru effeithiau 	<p>Byddai lefel y defnydd yn debygol o gynyddu yn gyffredinol, ond byddai'n amodol ar alw nad yw wedi'i fodloni a thueddiadau ym maes hamdden.</p> <p>Dylid ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas ag effeithiau y gellid eu hosgoi a/neu eu lliniaru, yn gyffredinol, drwy waharddiadau a chyfyngiadau, neu drwy arfer rhyw ffordd arall o reoleiddio defnydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ceir tystiolaeth sy'n dangos y ceid mwy o darfu ar gynefinoedd a rhywogaethau yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, er bod effeithiau'n amrywio a gellid mynd i'r afael â phroblemau, gan gynnwys materion tymhorol, ar lefel leol ac yn y lle drwy weithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau • Gall defnyddwyr sy'n arfer hawliau uwch gael mwy o effaith ond, yn gyffredinol, ceir llai ohonynt • Byddai'r hawliau'n gymwys i'r llwybrau troed sydd eisoes wedi'u diffinio, ac ni fyddai hyd cyfreithiol y llwybrau na'u lleoliad presennol yn newid – byddai hawliau uwch yn newid natur a math y tarfiad • Ceid effeithiau o ran erydu wyneb – safleoedd bregus yn agored i niwed o bosib • Ceid effaith ar wyneb y llwybrau sydd eisoes yn bodoli, felly byddai peidio ag ymestyn yr ardaloedd y ceid mynediad iddynt yn osgoi ehangu'r defnydd a wnaed, a lledaenu'r broblem erydu, y tu hwnt i linell bresennol y llwybr • Achosion cynyddol o dresmasu ar ardaloedd cyfagos i lwybrau troed • Bydd y math o ddefnydd ac effeithiau yn amrywio • Natura 2000 wedi nodi yn ei gynlluniau bod gweithgareddau hamdden yn fater sylweddol ar ei safleoedd • Dengys, ar hyn o bryd, mai ar raddfa fach iawn (hectarau, cilometrau ac ati) y cofnodwyd achosion bod safleoedd a thirweddau gwarchoddedig o dan bwysau gan weithgareddau hamdden wedi arwain at weithredu gorchmynion rheoleiddio traffig neu waharddiadau a chyfyngiadau • Byddai'n ofynnol cael mewnbwn cadwraeth natur <p>Nododd Cadw fod angen hefyd ystyried Henebion Cofrestredig – nid oes data ar gael ar y nifer y gallai'r newidiadau gael effaith arnynt, ond darparwyd sawl enghraifft o dan y trefniadau presennol.</p>	<p>Yn yr un modd ag Opsw'n 2A(i), codwyd graddau'r pwerau a sut y byddent yn cael eu defnyddio i ddatgymhwyso neu gyfyngu ar hawliau uwch.</p> <p>Byddai'r meini prawf asesu anaddasrwydd yn ei gwneud yn bosibl ystyried safleoedd y gellir dangos eu bod yn fregus yn wyneb defnydd hawliau uwch oherwydd ystyriaethau amgylcheddol [gan gynnwys cadwraeth natur, treftadaeth (e.e. Henebion Cofrestredig) neu dirwedd].</p> <p>Byddai asesuadau o anaddasrwydd a gwaharddiadau a chyfyngiadau yn cynnig modd o atal neu liniaru effeithiau yn y lle, ac effeithiau lleol/tymhorol.</p> <p>Efallai y bydd yn ofynnol cael mewnbwn o safbwynt cadwraeth natur a mewnbwn arbenigol arall (e.e. Cadw) er mwyn pennu addasrwydd llwybrau, a monitro a rheoli effeithiau, gan gynnwys gweithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau.</p>	<p>Yn yr un modd â'r ddau opsiwn arall, ac yn amodol ar sut y câi'r pwerau eu cymhwyso, byddai'r meini prawf asesu yn ei gwneud yn bosibl ystyried safleoedd sy'n fregus oherwydd ystyriaethau amgylcheddol [gan gynnwys cadwraeth natur, treftadaeth neu dirwedd].</p> <p>Byddai darpariaethau ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau yn cynnig modd o atal neu liniaru effeithiau yn y lle, ac effeithiau lleol/tymhorol.</p> <p>Efallai y bydd yn ofynnol cael mewnbwn o safbwynt cadwraeth natur a mewnbwn arbenigol arall (e.e. Cadw) er mwyn pennu addasrwydd llwybrau, a monitro a rheoli effeithiau, gan gynnwys gweithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau.</p>
- Rheoli tir a dŵr yn gynaliadwy	<p>Ystyried a geir effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar reolaeth tir neu ddŵr:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Aflonyddu ar dda byw a rheoli da byw - Effaith ar dir amaethyddol a gwaith rheoli tir arall - Goblygiadau bioddiogelwch sylweddol - Mwy o ddefnydd o dir o bosibl <p>Sylwer: Ystyriaethau ar gyfer</p>	<p>Effeithiau cyffredinol (heb eu meintioli) – gweler yr adran ar raddau'r mynediad, a'r adran ar feini prawf asesu eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ceid effaith ar wyneb llwybrau mewn lleoliad amaethyddol a choedwigaeth a allai fod yn sylweddol yn lleol, gan ddibynnu ar yr amodau • Byddai angen gwaith rheoli, a rhoi ystyriaeth ychwanegol o bryd i'w gilydd, i weithgareddau amaethyddol a choedwigaeth, ac i waith rheoli tir arall • Mwy o angen, neu ganfyddiad bod mwy o angen, i grwydro oddi ar y ffordd ar dir • Cynnydd yn y risgiau gwirioneddol neu'r risgiau a ganfyddir 	Yn gymharol lai nag Opsw'n 2A(i), gan ddibynnu ar sut y câi'r pwerau eu cymhwyso	Yn gymharol lai nag Opsw'n 2A(i) ac Opsw'n 2A(ii), gan ddibynnu ar sut y câi'r pwerau eu cymhwyso

Teitlau'r cynigion amlinellol:	Disgrifiad o'r meini prawf a mesurau	Opsw'n 2A(i): Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed yn gyffredinol [dull adran 30]	Opsw'n 2A(ii): Hawliau uwch wedi'u cymhwyso i lwybrau troed gyda phwerau i wahardd ar sail anaddasrwydd	Opsw'n 2A(iii): Cymhwyso hawliau uwch i lwybrau troed fesul achos ac ar sail ddetholedig
	ecosystemau i'w cynnwys yn yr ystyriaeth flaenorol uchod.	<ul style="list-style-type: none"> • Ceid dymuniad i geisio cau llwybrau dros dro a gallai dargyfeiriadau o dan adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980 gynyddu • Gallai gosod adeileddau mwy hygyrch gael effaith ar y defnydd anghyfreithlon o gerbydau sydd wedi'u pweru'n fecanyddol 		
Iechyd a llesiant	<p>Ystyried a geir effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar lesiant corfforol a meddyliol. Ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Newidiadau i ddefnydd a'r buddion sy'n deillio o hynny - Yr effaith ar grwpiau gwahanol o'r boblogaeth, e.e. pobl dan anfantais gymharol 	<p>Cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai'n ddibynnol ar b'un a fyddai'r hawliau newydd yn arwain at gynnydd mewn defnydd [gweler y meini prawf ansawdd ar gyfer pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hawliau uwch] • Posibilrwydd o fwy o ddefnydd (amlder a swm), gan ddwyn buddion ffisegol ac iechyd meddwl • Posibilrwydd o leihau'r risgiau i feicwyr a marchogwyr ceffylau o fod ar y ffordd. Ers 2010, bu 353 o ddigwyddiadau • Yn Arolwg Aelwydydd Cymru 2016/17, nododd yr adran ar alw cudd y bydd galw ychwanegol sylweddol am gyfleoedd i feicio oddi ar y ffordd [angen data] <p>Negyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ceid effeithiau negyddol posibl ar reolwyr tir yn sgil cynnydd mewn defnydd, gan waethygu materion rheoli tir sy'n ymwneud â defnydd hamdden (nid oes tystiolaeth o hyn ar hyn o bryd) 	Yn gyffredinol debyg i Opsw'n 2A(i), ond ceid effeithiau cymesur llai yn ôl sut y byddai'r newidiadau'n cael effaith ar ddefnydd, ac ar y lefel o ddatgymhwyso hawliau.	Llai o fuddion cadarnhaol a materion negyddol yn deillio o ddarparu llai o hawliau uwch. Byddai'r effaith gyffredinol yn dibynnu ar gyrraedd cydbwysedd cymharol.
Cydyntiant cymunedol	<p>Ystyried a geir effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar gydyntiant cymunedol. Ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Newidiadau i ddefnydd a hygyrchedd lleol mewn ardal - Newidiadau i lesiant lleol a buddion economaidd - Yr effaith debygol ar fuddiannau'r gymuned 	<p>Cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynediad eang ar gael ar gyfer marchogwyr ceffylau a beicwyr – mwy o ddarpariaeth oddi ar y ffordd • Posibilrwydd o leihau'r risgiau i feicwyr a marchogwyr ceffylau o fod ar y ffordd (tystiolaeth gan Gymdeithas Ceffylau Prydain ynghylch lefelau o ddamweiniau) • Galw cudd wedi'i amcangyfrif (dengys Arolwg Aelwydydd Cymru 2016/17 y bydd galw ychwanegol sylweddol am gyfleoedd i feicio oddi ar y ffordd – angen data) <p>Negyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhyngweithiad defnyddwyr, gyda chynnydd mewn achosion o wrthdaro gwirioneddol, ac a ganfyddir • Cynnydd mewn achosion o wrthdaro gwirioneddol, ac a ganfyddir, rhwng defnyddwyr lleol ac ymwelwyr a rhwng tîrfeiddianwyr a defnyddwyr 	Yn gyffredinol debyg i Opsw'n 2A(i), ond ceid effeithiau cymesur llai yn ôl sut y byddai'r newidiadau'n cael effaith ar ddefnydd, ac ar y lefel o ddatgymhwyso hawliau.	Llai o fuddion cadarnhaol a materion negyddol. Byddai'r effaith gyffredinol yn dibynnu ar gyrraedd cydbwysedd cymharol.
Busnes llwyddiannus a chyfrifol	<p>Ystyried a geir effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar fusnes cyfrifol. Ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Yr effaith ar gyfleoedd economaidd - Effaith newidiadau mewn gweithgarwch economaidd ar sectorau gwahanol - Dosbarthiad <p>Sylwer: gall fod yn anodd asesu tystiolaeth o gostau gwirioneddol neu effaith gyffredinol [cadarnhaol, negyddol ac ati] ar hyn o bryd.</p>	<p>Cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Posibilrwydd o fwy o ddefnydd (amlder a swm) gyda chynnydd mewn gwario gan ymwelwyr • Posibilrwydd o gynnydd mewn gwasanaethau ar gyfer busnesau sy'n ymwneud ag ymwelwyr sy'n beicio ac yn marchogaeth • Galw cudd – gweler y meini prawf uchod • Mae lefel y galw y byddai modd ei wireddu yn anodd ei phennu • Posibilrwydd y câi buddion eu dosbarthu'n eang, er nad oes tystiolaeth ar gael i ddarogan y canlyniad <p>Negyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Posibilrwydd y ceid cynnydd mewn costau i reolwyr tir [bydd angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn pennu hyn] • Cynnydd yn y costau o ddarparu gwasanaethau, e.e. parcio 	Yn gyffredinol debyg i Opsw'n 2A(i), ond ceid effeithiau cymesur llai yn ôl sut y byddai'r newidiadau'n cael effaith ar ddefnydd, ac ar y lefel o ddatgymhwyso hawliau.	Llai o fuddion cadarnhaol a materion negyddol. Byddai'r effaith gyffredinol yn dibynnu ar y cydbwysedd cymharol.

Opsw'n 2A: Ystyriaethau ar gyfer diwygio neu ddatblygu'r cynigion opsiwn a'r elfennau allweddol ymhellach

Mae'r tri thabl isod yn amlinellu'r elfennau allweddol a gynigiwyd gan y 'grŵp arbenigol' yn ystod y cam nodi opsiynau. Maent hefyd yn nodi'r diwygiadau a gynigiwyd i'r elfennau allweddol hyn yn dilyn y dadansoddiad uchod ac ymgynghoriad â'r grwpiau arbenigol.

Tabl 3: Materion i'w hystyried ar gyfer diwygio'r elfennau allweddol ar gyfer Opsw'n Diwygio 2A(i)

Cyfeirnod yr elfen allweddol	Opsw'n 2A(i): Elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Ystyriaethau / newidiadau posibl i wella'r opsiwn a'r elfen allweddol
001.	Diwygio'r ddeddfwriaeth i ganiatáu beicio a marchogaeth ceffylau ar lwybrau troed gan ddefnyddio darpariaeth o fath adran 30 Deddf Cefn Gwlad 1968.	<ul style="list-style-type: none"> • Angenrheidiol i'r opsiwn fel y'i cynigiwyd • Dylid hepgor elfen allweddol amgen 001/amgen ar 'eitemau ychwanegol' o'r diwygiad hwn a'i hystyried yn niwygiad Grŵp 1 y Rhaglen Diwygio Mynediad • Gweler elfen allweddol 012 ar 'Ystyriaeth / newidiadau posibl ...' isod
002.	Mae angen deddfwriaeth i bennu'r gofyniad i wneud gwaith cynnal a chadw ar gyfer defnydd ar droed – nid ar gyfer marchogwyr ceffylau na beicwyr [adran 55(8) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981].	<ul style="list-style-type: none"> • Cadw dull yr elfen allweddol ar gyfer y ddyletswydd i wneud gwaith cynnal a chadw ar gyfer defnyddwyr llwybrau troed yn unig, ac felly dylid hepgor yr opsiwn amgen • Disgwylir y bydd yr elfen allweddol benodol hon yn arwain at feichiau ychwanegol o safbwynt gwaith cynnal a chadw
003.	Dylid diwygio rheoliadau mapio i adlewyrchu'r newid, gan gynnwys y mapiau diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus. Byddai angen i ddarluniad drwy ffynonellau mapio eraill hefyd adlewyrchu'r newidiadau a geid o ganlyniad (e.e. Arolwg Ordnans).	<ul style="list-style-type: none"> • Elfen allweddol ofynnol • Dylid ailymgymryd â thrafod y manylion ar gyfer deddfwriaeth nes y camau drafftio, os datblygir yr opsiwn
004.	Diweddarau mapiau diffiniol.	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid hepgor elfen allweddol 004/amgen • Dylid datblygu manylion y mecanwaith ar gyfer y gofyniad i ddiweddarau'r map a datganiad diffiniol – os datblygir yr opsiwn
005.	Lleihau'r atebolrwydd i'r cyhoedd, fel y'i diffinnir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ac fel y'i cymhwysir i hawliau tramwy cyhoeddus.	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen cyngor cyfreithiol ar y pwynt atebolrwydd • Ystyried fel mater trawsbynciol ym mhroses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad – os dylid cysoni atebolrwydd rhwng hawliau tramwy cyhoeddus a'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ac, os felly, sut.

Cyfeirnod yr elfen allweddol	Opsw'n 2A(i): Efen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Ystyriaethau / newidiadau posibl i wella'r opsiwn a'r elfen allweddol
006.	Rhoi dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol, a phwerau cysylltiedig iddynt, i addasu cyfyngiadau (seilwaith) ar gyfer hawliau uwch gydag ystyriaeth ar gyfer cyfyngu mynediad anghyfreithlon a hwyluso gwelliannau i hygyrchedd.	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai'n fuddiol trefnu y ceid cymorth gan gynlluniau taliadau ar gyfer gwneud gwelliannau i adeileddau • Addasu'r geiriad fel ei bod yn glir y byddai elfen allweddol 006 yn gymwys wrth ystyried adeileddau newydd – nid yn ôl- weithredol ar draws y rhwydwaith • Ystyried ymhellach a all diwygio adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980, a'r ddeddfwriaeth ar gyfer datganiadau diffiniol, gefnogi bwriad polisi Diwygiad 2A, ac, os felly, sut
007.	Deddfu ar gyfer mecanwaith gwahardd a chyfyngu – creu proses wahardd a chyfyngu a fyddai'n ei gwneud yn bosibl tynnu hawliau uwch yn ôl ar ran o lwybr lle bu achos profedig o ymddygiad anghyfrifol. Dylai'r broses hon ddigwydd drwy gais, gan gynnwys proses ymgynghori ac apelio (y gallai rhesymau dros apelio gynnwys yr effeithiau ar dir gweithio, cadwraeth natur, bywyd gwylt, ystyriaethau iechyd a diogelwch ac ati).	<ul style="list-style-type: none"> • Sut y gall mecanwaith sy'n seiliedig ar god statudol weithio er mwyn cymryd camau gorfodi yn erbyn ymddygiad anghyfrifol • Sut y gellid datblygu gorchmynion rheoleiddio traffig, neu ddarpariaethau gwahardd a chyfyngu eraill, ar gyfer yr elfen hon, ac ehangu'r dibenion o ganlyniad, e.e. o safbwynt diogelwch cyhoeddus neu anaddasrwydd • Dylid naill ai symleiddio mecanwaith gwahardd a chyfyngu sydd eisoes yn bodoli, neu dylid darparu mecanwaith newydd
008.	Rhoi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol i uwchraddio arwyddion/cyfeirbwyntiau ar gyfer llwybrau troed â hawliau uwch, gan gynnwys y pŵer i osod arwyddion am resymau ar wahân i ddangos cyfeiriad.	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid gwirio digonolrwydd pwerau a dyletswyddau sydd eisoes yn bodoli; neu • Penderfynu a oes angen addasu pwerau sydd eisoes yn bodoli, ac, os felly, sut, neu benderfynu pa rai newydd sy'n ofynnol
009.	Ymgorffori cymal neu gafeat ar gyfer rheoliadau i amlinellu defnydd hawliau uwch cyfrifol yn benodol, mewn arweiniad neu fecanwaith arall. Byddai hyn yn cynnwys "hierarchaeth o ddefnyddwyr" ar lwybrau ac yn diffinio "cytundebau ffurfiol" ar rannau o lwybrau y'u hystyriwyd iddynt beri problemau. Byddai methiant i gydymffurfio yn sbarduno'r broses cyfyngiadau a gwaharddiadau a amlinellwyd uchod.	<p>Gofynion ar gyfer mecanweithiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eu cynnwys yn y brif ddeddfwriaeth (adran 2 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy) • Cod statudol ag iddo ffocws ar faterion trawsbynciol • Gweithredu gorchmynion rheoleiddio traffig er mwyn cyfyngu lle bo angen • Pwerau newydd i ddylanwadu ar y cynnig ar gyfer pennu hierarchiaeth o ddefnyddwyr, gan ddilyn Rheolau'r Ffordd Fawr, y gellid ei chymhwyso i ddefnydd hawliau tramwy cyhoeddus • (Gweler hefyd elfen allweddol 010 isod am fanylion ychwanegol)

Cyfeirnod yr elfen allweddol	Opsiwn 2A(i): Efen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Ystyriaethau / newidiadau posibl i wella'r opsiwn a'r elfen allweddol
010.	Gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru / Llywodraeth Cymru i gyflwyno cod ymddygiad a dyletswydd ar Lywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru a phob awdurdod mynediad i hybu dealltwriaeth ohono.	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod hyn yng nghyd-destun thema drawsbynciol o weithgareddau hamdden cyfrifol
011.	Cyfathrebu'r hawliau mynediad (drwy waith mapio, ymgyrch gyfathrebu, y Cod Cefn Gwlad, a gwaith ar godau gweithgaredd)	<ul style="list-style-type: none"> Mae hwn yn fater ar gyfer camau'r gwaith gweithredu
012.	Adolygu rheolau ynghylch gweithgarwch masnachol ar hawliau tramwy cyhoeddus ac ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a'u halinio'n well mewn perthynas â hawliau uwch. Datblygu a chyfathrebu diffiniadau mwy eglur o weithgarwch masnachol.	<ul style="list-style-type: none"> Mater trawsbynciol ar gyfer gwell cysoni Darpariaeth benodol ar gyfer deddfwriaeth Diwygiad 2A.

Tabl 4: Materion i'w hystyried ar gyfer diwygio elfennau allweddol ar gyfer Opsiwn Diwygio 2A(ii)

Cyfeirnod	Opsiwn 2A(ii): Efen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Ystyriaethau / newidiadau posibl i wella'r opsiwn a'r elfen allweddol
001.	Deddfwriaeth yn cymhwyso dull o fath adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 [gweler Opsiwn Diwygio 2A(i) ar gyfer yr elfennau gofynnol hynny]	<ul style="list-style-type: none"> Elfen allweddol angenrheidiol ar gyfer yr opsiwn fel y'i cynigir
002.	Dyletswyddau awdurdodau priffyrdd lleol o ran asesu anaddasrwydd y rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus o safbwynt hawliau uwch, gyda hyblygrwydd i wahardd mathau gwahanol o hawliau defnyddwyr. Ni châi pwerau newydd neu ychwanegol eu cyflwyno i wahardd hawliau ar lwybrau troed, neu i gyfyngu arnynt.	<ul style="list-style-type: none"> Dylid cynnwys diffiniad yn yr elfen allweddol y dylai asesu anaddasrwydd fod yn bŵer y gall awdurdodau priffyrdd ei arfer yn ôl disgrisiwn Dylid diffinio'r dull gweithredu y dylai awdurdodau priffyrdd lleol ei ddilyn wrth ymdrin â sylwadau Mae'r rhwydwaith llwybrau troed diffiniedig dros 26,000 km o hyd [gweler Tabl 2]
003.	Rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru bennu proses asesu anaddasrwydd, gan gynnwys darparu arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch meini prawf ar gyfer asesu.	<ul style="list-style-type: none"> Elfen allweddol angenrheidiol ar gyfer yr opsiwn fel y'i cynigir (Gweler hefyd yr ystyriaethau ar gyfer elfennau allweddol 004–007 isod)
004.	Pwerau i sefydlu fframwaith meini prawf asesu ar gyfer anaddasrwydd, gan gynnwys, er enghraifft, seilwaith, lled y llwybrau presennol, diogelwch cyhoeddus, faint o ddefnydd – cyfredol a disgwylidig.	<ul style="list-style-type: none"> Mae angen i asesiadau anaddasrwydd ddarparu prosesau teg. Byddai'n ddelfrydol pe byddai cyngor cyfreithiol yn llywio elfennau allweddol perthnasol a chyngor ar faterion o'r fath

		<ul style="list-style-type: none"> • (Gweler hefyd yr ystyriaethau ar gyfer elfennau allweddol 004-007 isod)
005.	Rhoi pwerau cysylltiedig i awdurdodau priffyrdd lleol werthuso anaddasrwydd y rhwydwaith, gan gynnwys ymgynghori – câi ymgynghoreion eu diffinio yn y ddeddfwriaeth fel ymgynghoreion statudol y fforymau mynediad lleol, tîrffeddiawyr, a'r bobl hynny sydd ynghlwm wrth orchmynion llwybr cyhoeddus.	<ul style="list-style-type: none"> • Egluro'r geiriad i sicrhau ei bod yn glir fod elfen allweddol 005 Opsiwn 2A(ii) yn ymwneud â'r angen i ymgynghori – sy'n hanfodol fel rhan o'r broses o werthuso anaddasrwydd [pan gaiff y broses honno ei datblygu] • Dylai awdurdodau priffyrdd lleol ymgynghori â fforymau mynediad lleol ynghylch eu dull o werthuso'r rhwydwaith, a'i amlinellu yn eu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy [yn amodol ar Ddiwygiad 3B] • Dylid diffinio dull awdurdodau priffyrdd lleol o ymdrin â sylwadau ynghylch asesu anaddasrwydd llwybrau
006.	Pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol eu harfer yn ôl disgrisiwn wrth wneud penderfyniadau. Yn ei hanfod, dylai awdurdodau priffyrdd lleol fod yn gallu diystyru llwybrau penodol ar sail eu gwerthusiad o'r rhwydwaith.	<ul style="list-style-type: none"> • Dim newid i'r elfen allweddol
007.	Cynnwys apeliadau fel rhan o'r broses werthuso, y dylai ddigwydd yn fewnol, i ddechrau, rhwng yr awdurdodau priffyrdd lleol a'r fforwm mynediad lleol. Dylid nodi y byddai apeliadau ynghylch materion cymhleth, a materion nas datryswyd, yn symud i gam yr Arolygiaeth Gynllunio er mwyn gwneud penderfyniad yn eu cylch.	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid addasu'r elfen hon fel ei bod yn adlewyrchu rôl gynghori'r fforymau mynediad lleol yn well. Byddai'r ddyletswydd dros wneud penderfyniadau ar gyfer prosesau cyfreithiol yn gorwedd gyda'r awdurdod priffyrdd lleol [a chyrrff statudol perthnasol eraill lle cyfeirir atynt]. • Byddai angen i ddeddfwriaeth bennu darpariaethau ar gyfer gwneud apeliadau
008.	Gofyniad am adolygiad 'cyfnodol' o lwybrau anaddas – byddai angen naill ai gwahardd llwybrau yn barhaol neu byddai'n rhaid eu hadolygu.	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid diwygio'r elfen allweddol i roi'r disgrisiwn i awdurdodau priffyrdd lleol benderfynu p'un a ddylid adolygu gwerthusiadau blaenorol (ailwerthuso) ynteu beidio • Yn gyffredinol, dylid ail-werthuso os bu newidiadau sylweddol i amgylchiadau yn hytrach nag ar sail cyfnodau penodol
009.	Byddai'n rhaid i bwerau'r awdurdodau lleol ar gyfer ystyried a diwygio adeileddau ar hawliau tramwy cyhoeddus werthuso llwybrau sydd wedi'u pennu fel rhai anaddas (h.y. ni allai adeileddau fod yr unig reswm dros bennu llwybr fel un anaddas).	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi pŵer yn ôl disgrisiwn i awdurdodau priffyrdd lleol • Dylai ymgynghoriad awdurdodau priffyrdd lleol gynnwys perchnogion adeileddau, a dylai gynnwys ystyriaeth o'r gwaith cynnal a chadw dilynol

		<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid ystyried a fydd y goblygiadau, gan gynnwys costau, yn gymesur â'r graddau y câi'r pwerau eu defnyddio
010.	Diffinio'r amser cychwyn – e.e. sut a phryd y daw hawliau newydd i rym.	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi'i gefnogi yn gyffredinol • Cyflwyno deddfwriaeth galluogi fesul cam o bosibl • Sicrhau bod adnoddau a gwaith cefnogol yn eu lle er mwyn hybu gwaith ymarferol a gwaith sy'n ymwneud â phennu anaddasrwydd • Byddai'n arwain at oedi'r gwaith o weithredu hawliau – dylid archwilio cyfnod yr amserlen.
011.	<p>Awdurdodau lleol i dderbyn mwy o bwerau i osod arwyddion ar hyd llwybrau lle ceir cynnydd yng nghymhlethdod darparu mynediad. Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Arwyddion cynghorol lle mae hawliau mynediad wedi newid a/neu wedi'u cyfyngu (trwy bennu bod llwybr yn anaddas) - Câi math a lleoliad arwydd ei benderfynu fesul awdurdod lleol 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae hwn yn bŵer grymuso ymarferol angenrheidiol • Dylai'r elfen allweddol nodi'r angen i bwerau arwyddion gael eu diwygio'n briodol [adran 27 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968, a Deddf Traffig Ffyrdd 1984] • Byddai materion fel y derminoleg ar gyfer llwybrau troed â hawliau uwch, a'r confensiynau cysylltiedig ar gyfer arwyddion, yn cael effaith ar hyn
012.	<p>Gwaith addysgu ynghylch y Cod Cefn Gwlad diwygiedig</p> <ul style="list-style-type: none"> - Diwygio'r Cod Cefn Gwlad a chodau gweithgareddau cysylltiedig - Ymgyrch(oedd) ymwybyddiaeth y cyhoedd - Ymwybyddiaeth gan dirfeddianwyr - Gosod disgwyliadau - Nodi'r drefn arferol ar gyfer cydymffurfiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Ceir cefnogaeth gyffredinol fod hyn yn hanfodol • Dylid cyfeirio at y dulliau gweithredu o ran gweithgareddau hamdden cyfrifol, a hefyd o ran gwaharddiadau neu gyfyngiadau • Dylid nodi goblygiadau adnoddau

Tabl 5: Materion i'w hystyried ar gyfer diwygio'r elfennau allweddol ar gyfer Opsiwn Diwygio 2A(iii)

Cyfeirnod	Opsiwn 2A(iii): Elfennau allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Ystyriaethau / newidiadau posibl i wella'r opsiwn a'r elfennau allweddol
001.	Deddfwriaeth i ddarparu pwerau ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol er mwyn pennu llwybrau troed unigol ar gyfer defnydd hawliau uwch.	<ul style="list-style-type: none"> • Elfennau allweddol ofynnol ar gyfer yr opsiwn
002.	Pwerau i ganiatáu'r rheoliadau i amlinellu proses ddynodi, gan gynnwys meini prawf ar gyfer asesu llwybrau troed, darparu ar gyfer effeithiau – o safbwynt, er enghraifft, gwaith rheoli tir, cadwraeth	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai'r penderfyniad p'un a fyddai angen talu iawndal ar gyfer llwybrau troed dynodedig yn llywio'r prosesau i'w pennu – bydd cyngor cyfreithiol yn llywio hyn

Cyfeirnod	Opsiwn 2A(iii): Eifen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Ystyriaethau / newidiadau posibl i wella'r opsiwn a'r elfen allweddol
	natur a bywyd gwyllt, ac ystyriaethau iechyd a diogelwch.	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen rhagor o waith i ddiffinio'r meini prawf a'r asesiadau angenrheidiol yn y cam paratoi deddfwriaethol (gweler yr ystyriaeth ar gyfer elfen allweddol 006 isod)
003.	Prosesau syml â therfynau amser (yn achos y broses hir o gwblhau gorchymyn addasu mapiau, er enghraifft).	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai angen dilyn proses gyfreithiol a theg a fydd yn llywio'r gallu i ddarparu proses symlach, y dylai terfynau amser rhesymol fod ynghlwm wrthi
004.	Gwneud darpariaeth i ddeddfu ar gyfer prosesau ymgynghori ac apelio.	<ul style="list-style-type: none"> • Yn rhan ofynnol o broses gyfreithiol a theg • Nid oes angen cyfeirio at fforymau mynediad lleol gan y gallant gael mewnbwn o fewn telerau'r rôl gynghorol sydd eisoes yn bodoli, a hynny o safbwynt y dull strategol ac ynghylch achosion penodol
005.	Diwygio rheoliadau mapiau diffiniol er mwyn adlewyrchu newidiadau.	<ul style="list-style-type: none"> • Gofynnol. Dylid cynnwys ystyriaeth fanwl yn ystod cam drafftio'r deddfwriaeth
006.	Diweddarau mapiau diffiniol – mecanwaith ar gyfer sicrhau bod mapiau diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus yn gyfoes	<ul style="list-style-type: none"> • Ni ddarparwyd tystiolaeth ynghylch yr angen i bob map a datganiad diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus fod yn gyfoes fel rhagflaenydd i'r broses o weithredu'r diwygiad • Ni ddylai fod yn ofynnol cynnal ymchwil helaeth i'r statws cyfreithiol • Dylid ei thynnu fel elfen allweddol ar wahân. Yn hytrach, dylid cynnwys 'ystyriaeth' ag elfen allweddol 002 (uchod) i nodi y dylai'r broses asesu archwilio'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch statws cyfreithiol llwybrau
007.	Pwerau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol / Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar gyfer addasu cyfyngiadau ar lwybrau (seilwaith) i hwyluso mynediad ar gyfer hawliau uwch a rhesymau hygrychedd.	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi pŵer yn ôl disgresiwn i awdurdodau priffyrdd lleol • Dylai awdurdodau priffyrdd lleol gynnal ymgynghoriad â pherchnogion adeileddau, a ddylai gynnwys ystyriaeth o'r gwaith cynnal a chadw dilynol • Byddai'r goblygiadau, gan gynnwys costau, yn gymesur â'r graddau y câi'r pwerau eu defnyddio • Byddai angen ystyried y goblygiadau ar yr adeileddau cyfreithlon ar lwybrau troed sydd mewn perchenogaeth breifat – byddai angen i gyngor cyfreithiol lywio'r mater ymhellach

Cyfeirnod	Opsw'n 2A(iii): Eifen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Ystyriaethau / newidiadau posibl i wella'r opsiwn a'r elfen allweddol
008.	Ailddiffinio eitemau ychwanegol (cysylltiedig â Diwygiad 1A – e.e. cludo cychod i ddyfroedd mewndirol ar hyd hawliau tramwy).	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid hepgor yr elfen allweddol hon gan yr ystyrir ei bod yn ddiangen o safbwynt bwriad y diwygiad hwn. • Yn hytrach, gellid ystyried hyn o fewn diwygiadau Grŵp 1 y Rhaglen Diwygio Mynediad
009.	Mecanwaith cyfyngu a gwahardd am resymau diffiniedig – drwy gais i awdurdodau priffyrdd lleol. Er enghraifft, ar gyfer materion yn ymwneud â thir gweithio, cadwraeth natur a bywyd gwyllt, ac ystyriaethau iechyd a diogelwch.	<ul style="list-style-type: none"> • Câl'r mecanwaith ei arfer yn ôl disgrisiwn yr awdurdod priffyrdd lleol, a byddai'n gymwys i bob effaith niweidiol (nid yn unig y rheiny a achosid gan ddefnyddwyr hawliau uwch) • Mecanwaith cod statudol i gymryd camau gorfodi yn erbyn ymddygiad anghyfrifol (cysylltiadau â'r adroddiad ar themâu trawsbynciol) • Potensial ar gyfer datblygu darpariaethau gorchymyn rheoleiddio traffig ar gyfer yr elfen hon (e.e. ystyried darpariaethau adrannau 22-22A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984). • Dylid sicrhau bod darpariaethau 2B yn cynnig digon o gwmpas i fynd i'r afael â'r angen hwn
010.	Ystyried term/diffiniad newydd ar gyfer llwybrau â hawliau uwch dynodedig, a sicrhau y diwygir iaith arwyddion statudol i gyd-fynd â hyn.	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at newidiadau mwy cyfyngedig i lwybrau troed. • Byddai dulliau posibl yn cynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ diwygio terminoleg llwybrau troed; neu ○ ailenwi llwybrau troed sydd wedi'u dynodi'n 'llwybrau cyhoeddus' • Dylid gwneud darpariaeth i gadw'r map a datganiad diffiniol a'r cofnod mapio cyhoeddus wrth ddisgrifio hawliau ychwanegol sy'n berthnasol
011.	Cod hamdden – addasu'r Cod Cefn Gwlad, felly'n ganllaw cynghorol yn unig.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparu cod statudol yn cael ei ystyried ar wahân • Diwygio'r Cod Cefn Gwlad • Sylwer ar yr angen am wybodaeth a chanllawiau perthnasol eraill i adlewyrchu'r newidiadau

Crynodeb o'r camau nesaf

Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i weinidogion ar gyfer ei adolygu'n ffurfiol tua mis Tachwedd 2020. Lle ceir cytundeb, gweithredir y newidiadau a awgrymir i'r tablau o elfennau allweddol (uchod) a chaiff set derfynol o opsiynau diwygio arfaethedig ei llunio.

Ym mis Ionawr 2021, cynhelir sesiynau olaf y grwpiau arbenigol a'r rhain fydd y cyfarfodydd dethol opsiynau. Y dasg yn y cyfarfodydd fydd i aelodau'r grwpiau arbenigol drafod a, lle y bo'n bosibl, gyrraedd consensws ar yr opsiynau a ffafrir ar gyfer pob maes diwygio. Ar ôl hynny, caiff yr adroddiad terfynol ei lunio i'w gyflwyno gerbron y Gweinidog ar ddiwedd mis Mawrth 2021.

Atodiad 1: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r 'cais am dystiolaeth'

Ymatebodd cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol i'r 'cais am dystiolaeth' gan y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad a anfonwyd yn ystod haf 2020:

Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor, Gwynedd
Fforwm Mynediad Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)
Cymdeithas Ceffylau Prydain (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)
Cyngor Mynydda Prydain (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)
Cadw
Canŵ Cymru
Cyngor Sir Caerfyrddin (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)
Awdurdod Lleol Ceredigion (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (*cynrychiolydd/cynrychiolwyr grŵp arbenigol*)
Cycling UK (*cynrychiolydd/cynrychiolwyr grŵp arbenigol*)
Fforwm Mynediad Lleol ar y Cyd Sir y Fflint a Wrecsam
Y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad
Y Weinyddiaeth Amddiffyn (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)
Cynrychiolydd cenedlaethol, fforymau mynediad lleol Cymru
Y Gymdeithas Mannau Agored (*cynrychiolwyr grŵp arbenigol*)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)
Fforwm Mynediad Lleol Powys
Fforwm Mynediad Lleol Rhondda Cynon Taf
Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru
Dinas a Sir Abertawe (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)
Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Cymru (aelod o'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)

Ymatebion mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru

- Y Tîm Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
- Y Tîm Gwybodaeth a Thystiolaeth o fewn Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
- Y Tîm Rheoli Tir
- Y Tîm Ecosystemau Morol ac Arfordirol
- Y Tîm Polisi a Chynllunio Morol ac Arfordirol
- Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru
- Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru
- Tîm Safleoedd Gogledd-orllewin Cymru
- Tîm Mynediad a Hamdden Awyr Agored
- Tîm Gweithrediadau Canol De Cymru
- Y Tîm Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
- Mannau Cynaliadwy – Y Tîm Rheoli Tir a Môr
- Y Tîm Llesiant ac Integreiddio